Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl

### Cyfrog 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol

# Rhan 7

Canllawiau ar Ddiogelu.

*Cyhoeddwyd o dan adrannau 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*

## Pennod / Cynnwys


1. Cyflwyniad 1

2. Yr egwyddorion sy' n sail i' r trefniadau newydd 3

3. Y fframwaith dysgu ac adolygu 4

4. Y goblygiadau ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion 7

5. Fforymau proffesiynol amlasiantaethol 9

6. Adolygiadau ymarfer oedolion cryno 12

7. Adolygiadau ymarfer oedolion estynedig 21

8. Defnyddio'r broses adolygiadau ymarfer oedolion yng ghyswllt camdriniaeth yn y gorffennol 24

**Atodiad 1 –** Templedi 31

1. Argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiadau i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion 31
2. Bwrdd Diogelu Oedolion - Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion 38
3. Llinell Amser gryno 41

**Atodiad 2 –** Cylch gorchwyl – enghraifft 42

**Atodiad 3 –** Cynnal adolygiad mewn achos o gamdriniaeth gyfundrefnol neu luosog yn y gorffennol 44


OGL


ISBN digidol 978-1-4734-7035-4


© Hawlfraint y Goron 2016


WG30266

# 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r canllawiau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion amlasiantaethol mewn amgylchiadau digwyddiad o bwys lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso oedolyn sy'n wynebu risg wedi digwydd. Caiff penodau 1-7 o'r canllawiau hyn eu cyhoeddi dan adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Mae'n rhan o'r casgliad o ganllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Ran 7 y Ddeddf honno.

1.2. Caiff y meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion eu hegluro yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[1]. Daeth y trefniadau i rym ar 6 Ebrill 2016.

1.3. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at bob Bwrdd Diogelu Oedolion (y Byrddau)a'u hasiantaethau partner. Diben cyffredinol y system adolygu yw hybu diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu ym maes trefniadau amddiffyn oedolion amlasiantaethol mewn ardaloedd lleol, sy'n gyfrifoldeb a ysgwyddir gan y Byrddau a'u hasiantaethau partner. I gyflawni hynny mae'r canllawiau yn gosod sylfaen ar gyfer cyd-ddysgu gan weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ac, mewn amgylchiadau lle mae angen cynnal adolygiad mwy ffurfiol pan fydd achosion o gam-drin neu esgeuluso wedi arwain at ddigwyddiadau difrifol, ceir system o adolygiadau ymarfer oedolion amlasiantaethol cryno ac estynedig. Disgwylir i ganlyniadau'r newidiadau hyn greu cyfleoedd dysgu newydd a all hybu gwelliant parhaus ym maes ymarfer amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol.

1.4. Dylai pob bwrdd diogelu fod â gweithdrefn gwyno er mwyn ymdrin â chwynion am adolygiadau ymarfer. Dylai'r weithdrefn gwyno roi sylw i natur amlasiantaethol adolygiad yn hytrach na chwyn yn erbyn gweithredoedd asiantaeth unigol, y dylid ei dilyn drwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth ei hun.

1.5. Mae gan y fframwaith nifer o nodweddion pwysig sy'n golygu ei fod yn gryfach na'r system flaenorol o adolygiadau achosion difrifol:

- mae'n cynnwys asiantaethau, staff a theuluoedd sy'n ymdrechu ar y cyd i fyfyrio ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu ohono er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd yn hytrach nag euogrwydd;
- mae ganddo'r potensial i ddatblygu ymarfer amlasiantaethol mwy cymwys a hyderus yn y tymor hir, lle bydd gan staff well dealltwriaeth o sylfaen wybodaeth a safbwynt y gwahanol weithwyr proffesiynol y maent yn cydweithio â hwy;
- mae'n cryfhau atebolrwydd rheolwyr i gymryd cyfrifoldeb am y cyd-destun a'r diwylliant y mae eu staff yn gweithio ynddynt a sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen;
- mae'n cydnabod yr effaith y mae amgylchiadau trasig achosion lle mae oedolion yn marw neu'n cael niwed difrifol yn annamweiniol yn ei chael ar deuluoedd a staff, ac mae'n darparu cyfleoedd i adolygu digwyddiadau difrifol mewn diwylliant sy'n deg ac yn gyfiawn;
- mae'n mabwysiadu dull mwy syml, hyblyg a chymesur o adolygu achosion a dysgu o achosion y mae'n anorfod eu bod yn gymhleth;
- mae'n caniatáu defnydd mwy adeiladol a phriodol o adnoddau na'r system flaenorol, ac mae'n gweithio i amserlenni tynnach;

**1** Rheoliad 4(3) a 4(4). http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made

- mae'n manteisio ar yr hyn a ddysgwyd o brosesau adolygu cysylltiedig eraill, ac mae'n sicrhau bod y fframwaith yn fwy cydnaws â gwahanol systemau adolygu;
- mae'n canolbwyntio ar feysydd dysgu allweddol a nodwyd drwy'r broses adolygu, sy'n arwain at argymhellion a chamau gweithredu perthnasol i wella ymarfer yn y dyfodol, a gofnodir mewn adroddiadau dienw a gyhoeddir gan y Byrddau.

1.6. Mae'r canllawiau yn cynnwys yr atodiadau canlynol:

- Mae Atodiad 1 yn cynnwys set o dempledi i helpu i symleiddio gwaith cyfathrebu ac adrodd yn ôl yn ystod proses adolygiad ymarfer oedolion.
- Mae Atodiad 2 yn cynnwys enghraifft o gylch gorchwyl adolygiad ymarfer oedolion.
- Mae Atodiad 3 yn dangos sut y gall y Byrddau ddefnyddio'r broses adolygu newydd i sicrhau bod gwell ymarfer a gwell systemau ar waith mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth gyfundrefnol a lluosog yn y gorffennol.

1.7. Ar wefan Llywodraeth Cymru gellir gweld y canllawiau cyfatebol ar gyfer adolygiadau ymarfer plant, ynghyd â chanllaw ar gyfer trefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu. [2].

1.8. Datblygwyd y trefniadau hyn drwy broses helaeth o drafod, ymgynghori, adborth a phrofi mewn gweithdai gyda rhanddeiliaid, a chynlluniau peilot o adolygiadau ymarfer plant gan nifer o Fyrddau. Mae pob un wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith o ddatblygu manylion y canllawiau. Hefyd mae'r fersiwn hon wedi defnyddio canfyddiadau adolygiad annibynnol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Cordis Bright, yn edrych ar weithredu'r fframwaith adolygiadau ymarfer plant.

**2** http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/safeguard12/?skip=1&lang=cy

## 2 Yr egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau newydd

2.1 Caiff y fframwaith ei ategu gan set o egwyddorion i gynnig arweiniad i Fyrddau, eu hasiantaethau partner a phartneriaid cymunedol eraill ynghylch eu cyfrifoldebau i ddysgu, adolygu a gwella polisi ac ymarfer amddiffyn oedolion yn lleol. Mae'r egwyddorion canlynol wedi chwarae rôl bwysig o ran llywio'r modd y cafodd y trefniadau newydd ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion amlasiantaethol eu cynllunio a'u datblygu. Maent yn sicrhau'r canlynol:

- mae gweithwyr proffesiynol ym mhob gwasanaeth sy'n gweithio gydag unigolion a theuluoedd yn yr ardal leol yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen er mwyn iddynt allu ymgymryd yn hyderus ac yn gymwys â'r gwaith cymhleth ac anodd o amddiffyn oedolion;
- teimlir bod diwylliannau sefydliadol, a'r prosesau sy'n ategu'r diwylliannau hynny, yn deg ac yn gyfiawn, ac maent yn hybu trefniadau rheoli ac amgylcheddau gwaith cefnogol i weithwyr proffesiynol;
- mae diwylliant dysgu cyffredin cadarnhaol yn ofyniad angenrheidiol ar gyfer sicrhau ymarfer amlasiantaethol effeithiol;
- caiff diwylliant o dryloywder ei greu:
    - sy'n darparu cyfleoedd rheolaidd i fynd i'r afael â chydweithredu ac ymarfer amlasiantaethol a gwaith dysgu, myfyrio a datblygu amlasiantaethol;
    - sy'n cynnwys prosesau ar gyfer dysgu ac adolygu sy'n hyblyg a chymesur ac y mae'n bosibl i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd eu herio;
    - sy'n ymgysylltu ag unigolion a theuluoedd mewn achosion ac sy'n ystyried eu dymuniadau a'u barn;
    - sy'n darparu atebolrwydd a sicrwydd i unigolion, teuluoedd a'r cyhoedd yn ehangach;
    - sy'n nodi 'n brydlon yr angen am newidiadau systemig neu broffesiynol ac sy'n sicrhau y caiff camau gweithredu amserol eu cymryd;
    - sy'n mynd ati ar lefel amlasiantaethol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i rannu a lledaenu gwybodaeth neu wersi newydd a ddysgwyd.

    - mae'r gwaith o ddysgu, adolygu a gwella polisi ac ymarfer amddiffyn oedolion amlasiantaethol yn lleol yn cael ei archwilio a'i werthuso i weld pa mor effeithiol ydyw.

2.2 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith newydd yn cyd-fynd â'r *Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn*[3] a gellir gweld eu bod yn cael eu hadlewyrchu mewn modd tebyg yn yr offerynnau statudol a'r canllawiau sydd gan gyrff perthnasol eraill ar gyfer eu systemau hwy o adolygiadau, ymchwiliadau a thribiwnlysoedd.

**3** Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y CU ar 16 Rhagfyr 1991.

## 3 Y fframwaith dysgu ac adolygu

3.1 Mae'r fframwaith dysgu ac adolygu wedi'i ddatblygu gyda'r bwriad y bydd y Byrddau a'u hasiantaethau partner yn darparu amgylchedd lle gall ymarferwyr a'u hasiantaethau ddysgu o'u gwaith achos eu hunain a gwaith achos pobl eraill ac o ffynonellau megis archwiliadau, gwaith ymchwil ac arolygiadau. Mae'r fframwaith, y mae'r egwyddorion ym mhennod 2 yn sail iddo, yn cynnwys sylfaen ar gyfer dysgu trwy fforymau proffesiynol amlasiantaethol. Os oes angen i'r Bwrdd gynnal adolygiad mwy ffurfiol, caiff y meini prawf eu nodi'n glir mewn rheoliadau ar gyfer sefydlu adolygiadau ymarfer oedolion amlasiantaethol sydd naill ai'n gryno neu'n estynedig.

3.2 Yn fyr, mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o wahanol rannau sy'n perthyn i'w gilydd, fel y nodir yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015* [4] a'r Canllawiau Statudol ar Ran 7 o'r Ddeddf[5]. Caiff manylion ynghylch fforymau proffesiynol amlasiantaethol ac adolygiadau ymarfer oedolion cryno ac estynedig eu hegluro'n fanylach ym mhenodau dilynol y canllawiau hyn.

**Fforymau proffesiynol amlasiantaethol**

3.3 Dyma raglen barhaus gan Fwrdd ar gyfer dysgu ar y cyd, sy'n cynnwys digwyddiadau amlbroffesiynol a hwylusir i ymarferwyr a rheolwyr. Maent yn darparu cyfle i archwilio ymarfer sy'n gysylltiedig ag achosion sy'n caniatáu ymgynghori, myfyrio, a rhannu canfyddiadau o archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau amddiffyn oedolion er mwyn gwella gwybodaeth ac ymarfer yn lleol a llywio blaenoriaethau'r Bwrdd yn y dyfodol o safbwynt archwilio a hyfforddi. Lle bo Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn ystyried nad yw achos yn bodloni meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig, gall argymell i'r achos gael ei ystyried gan y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol i'w alluogi i ymgymryd â dull mwy cymesur na'r hyn sy'n ofynnol gan Adolygiadau Ymarfer Oedolion

**Adolygiadau cryno**

3.4 Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion cryno pan fo oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd **heb**, ar unrhyw adeg yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

3.5 Diben adolygiad yw nodi'r hyn sydd i'w ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn y broses o archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gydag unigolyn a theulu. Bwriedir i ganlyniad adolygiad arwain at waith dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

3.6 Mae adolygiad cryno'n cynnwys llawer o weithgareddau cysylltiedig a gaiff eu disgrifio isod, ac maent i gyd yn cyfrannu at gywirdeb y broses ac at yr hyn y gellir ei ddysgu o'r achos a gaiff ei adolygu.

4 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1466/contents/made

5 http://gov.wales/docs/phhs/publications/160404part7guidevol1cy.pdf http://gov.wales/docs/phhs/publications/160404part7guidevol1en.pdf

3.7 Caiff yr adolygiad ei reoli gan *Banel Adolygu,* a chaiff adolygydd ei benodi i weithio gyda'r *Panel Adolygu.* Bydd yr adolygiad yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn ac aelodau'r teulu, yn unol â'u dymuniad ac fel y bo'n briodol,er mwyn i'w safbwyntiau gael eu cynnwys, a bydd yn ymwneud ag ymarferwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda'r unigolyn a'r teulu a'u rheolwyr. Mae digwyddiad dysgu a gaiff ei gynllunio a'i hwyluso ac sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr yn elfen allweddol ar yr adolygiad. Cynhelir y digwyddiad gan adolygydd, sy'n annibynnol ar reolwyr yr achos, er mwyn archwilio ymarfer cyfredol sy'n gysylltiedig ag achosion ar sail llinell amser gyfyngedig a chan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar systemau.

3.8 Caiff copi drafft dienw o adroddiad adolygiad ymarfer oedolion a chynllun gweithredu amlinellol eu llunio a'u cyflwyno i'r Bwrdd. Bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried ac yn herio casgliadau'r adolygiad ac yn cyfrannu atynt, a byddant yn nodi'r goblygiadau strategol ar gyfer gwella ymarfer a systemau, y dylid eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

3.9 Caiff yr adroddiad terfynol ei gymeradwyo gan y Bwrdd, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth, ac yna'i gyhoeddi gan y Bwrdd. Caiff y broses ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd ond fel arfer cyn pen chwe mis fan bellaf ar ôl y dyddiad y cafodd yr achos ei gyfeirio gan y Bwrdd at yr *Is-grŵp Adolygiadau.*

3.10 Caiff fersiwn derfynol y cynllun gweithredu ei llunio cyn pen pedair wythnos ar ôl cael yr adroddiad terfynol, a chaiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth. Caiff y broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith ei hadolygu'n rheolaidd, ac adroddir wrth y Bwrdd ynghylch cynnydd.

3.11 Dylai cynlluniau gweithredu arwain at welliannau mewn ymarfer amddiffyn oedolion, a bydd angen i'r Bwrdd sicrhau y caiff y cynlluniau eu harchwilio'n ofalus i weld a yw camau gweithredu'n cael eu cyflawni, pa effaith y maent yn ei chael, a gweld a ydynt yn gwneud gwahaniaeth.

**Adolygiadau estynedig**

3.12 Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion estynedig pan fo oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd heb, ar unrhyw adeg yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

3.13 Mae'r adolygiad yn dilyn yr un broses a'r un amserlen ag adolygiad cryno, gan ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a theuluoedd i'r graddau y maent yn dymuno ac i'r graddau y mae hynny'n briodol, a bydd yn ymwneud ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion drwy gydol y broses. Ceir lefel ychwanegol o graffu ar waith yr asiantaethau statudol a'r cynllun(iau) statudol a oedd ar waith ar gyfer yr unigolyn.

3.14 Cynhelir yr adolygiad gan ddau adolygydd a fydd yn cydweithio'n agos â'i gilydd ac a benodir gan y *Panel Adolygu.* Byddant yn gyfrifol am archwilio'r modd y cafodd dyletswyddau statudol pob asiantaeth berthnasol eu cyflawni, ac am adrodd ynghylch hynny wrth y *Panel Adolygu* a'r Bwrdd.

3.15 Caiff adroddiad dienw ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth ac yna'i gyhoeddi gan y Bwrdd. Caiff y broses ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd ond *fel arfer* cyn pen chwe mis fan bellaf ar ôl y dyddiad y cafodd yr achos ei gyfeirio gan y Bwrdd at yr *Is-grŵp Adolygiadau*.

3.16 Caiff fersiwn derfynol y cynllun gweithredu ei lunio cyn pen pedair wythnos ar ôl cael yr adroddiad terfynol, a chaiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth. Caiff y broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith ei hadolygu'n rheolaidd, ac adroddir wrth y Bwrdd ynghylch cynnydd.

3.17 Dylai cynlluniau gweithredu arwain at welliannau mewn ymarfer amddiffyn oedolion, a bydd angen i'r Bwrdd sicrhau y caiff y cynlluniau eu harchwilio'n ofalus i weld a yw'r camau gweithredu'n cael eu cyflawni a pha effaith y maent yn ei chael, a gweld a ydynt yn gwneud gwahaniaeth.

# 4 Y goblygiadau ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion

4.1 Mae sicrhau gwelliant mewn polisi, systemau ac ymarfer diogelu yn un o elfennau craidd busnes y Byrddau. Mae'r Byrddau yn gyfrifol am:

- sefydlu adolygiadau ymarfer oedolion a sicrhau y cânt eu rheoli'n effeithiol;
- cyfrannu i'r adolygiadau a darparu her broffesiynol;
- nodi goblygiadau strategol ar gyfer gwella systemau ac ymarfer mewn asiantaethau unigol neu ar sail ryngasiantaethol;
- cymeradwyo'r adroddiad a'r cynllun gweithredu terfynol pan fydd adolygiad wedi'i gwblhau;
- cyhoeddi adroddiad yr adolygiad ymarfer oedolion;
- gweithredu ac archwilio newidiadau mewn polisi, systemau ac ymarfer lleol i weld pa wahaniaeth y maent wedi'i wneud.


4.2 Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae angen Byrddau ymroddedig ac ysbrydoledig sy'n barod i herio, sy'n gweithredu'n dda ac sy'n cael eu harwain yn gadarn, ac mae angen cefnogaeth lawn a chyson yr asiantaethau a gaiff eu cynrychioli ar y Byrddau. Mae angen partneriaeth weithredol â gwasanaethau cymunedol eraill hefyd nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd ond sy'n gweithio gydag unigolion a theuluoedd yn lleol.[6]

4.3 Mae angen i Fyrddau ganolbwyntio ar ddysgu ac ar ganlyniadau, ac mae angen iddynt annog amgylchedd cefnogol. Er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r gwaith heriol a chymhleth sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion y mae staff proffesiynol mewn asiantaethau lleol yn ymgymryd ag ef, mae angen i'r Bwrdd allu parhau i oruchwylio ymarfer yn agos a'i ddeall. Mae rôl y Bwrdd o safbwynt cymeradwyo adroddiadau adolygiadau ymarfer oedolion yn ffordd bwysig o gyflawni hynny, fel y gallant ddarparu cymorth a her broffesiynol briodol a sicrhau y caiff yr hyn a ddysgir o adolygiadau ei ddefnyddio gan y Bwrdd a'i asiantaethau partner i gymryd camau gweithredu effeithiol.

4.4 I gyflawni amcanion y fframwaith dysgu ac adolygu, bydd angen sicrhau bod gan bob Bwrdd swyddogaethau penodol. Bydd angen i strwythur a diben is-grwpiau neu is-bwyllgorau sefydlog y Bwrdd adlewyrchu busnes craidd y Bwrdd, sicrhau cynrychiolaeth briodol, a sicrhau y ceir prosesau a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cydgysylltu'n gyfan gwbl rhwng yr is-grwpiau. Caiff y cydberthnasau y mae angen eu datblygu ar gyfer gweithredu'r fframwaith dysgu ac adolygu eu dangos yn y diagram (Ffigur 1).

**6** Gweler y Safonau yn J. Horwath a T. Morrison ar gyfer AGGCC (2009): *Offeryn Hunanasesu a Gwella (OHAG) ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLIDP) fersiwn 6,* http://gov.wales/docs/cssiw/publications/101012saittoolcy.pdf

**Ffigur 1 Seilwaith posibl Bwrdd Diogelu o is-grwpiau sy'n hybu'r fframwaith dysgu ac adolygu**



## 5 Fforymau proffesiynol amlasiantaethol

5.1 Mae fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn system ar gyfer creu cyfleoedd dysgu sefydliadol, gwella ansawdd y gwaith a wneir gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i sicrhau bod unigolion yn ddiogel. Maent yn defnyddio gwybodaeth o achosion, canfyddiadau o archwiliadau amddiffyn oedolion, arolygiadau ac adolygiadau i ddatblygu a lledaenu dysgu i wella gwybodaeth ac arferion lleol, a chyfrannu at flaenoriaethau archwilio a hyfforddi y Bwrdd yn y dyfodol.

5.2 Diffinnir fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015* fel a ganlyn:

> ***"fforymau a drefnir ac a hwylusir gan y Bwrdd ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr o gyrff cynrychioliadol, a chyrff neu bobl eraill y mae Cadeirydd y Bwrdd yn eu hystyried yn berthnasol, er mwyn dysgu oddi wrth achosion, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau a gwella polisi ac ymarfer amddiffyn plant yn y dyfodol."***

5.3 Dylai fforymau gael eu sefydlu fel rhaglen barhaus o ddysgu gweithredol gan bob Bwrdd, a byddant yn rhan annatod o Gynllun Busnes y Bwrdd.

5.4 Gallai'r cyfrifoldeb am sefydlu rhaglen waith ar gyfer y fforymau fod yn gyfrifoldeb i un o is-grwpiau presennol y Bwrdd, megis yr Is-grŵp *Sicrhau Ansawdd* (a elwir mewn rhai Byrddau yn Is-grŵp neu'n Is-bwyllgor *Archwilio* neu *Safonau Diogelu*) neu'r Is-grŵp *Hyfforddiant,* neu gallai is-grŵp penodol gael ei sefydlu at y diben hwnnw. Mae'n anochel y bydd cysylltiad agos rhwng gweithgareddau'r is-grŵp hwn a gweithgareddau is-grwpiau eraill y Bwrdd, gan gynnwys yr *Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion*, a bydd angen sicrhau trefniadau priodol o ran aelodaeth ar draws yr is-grwpiau a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd.

5.5 Mae gan y fforymau ddau brif ddiben - gellir eu defnyddio i gynnal digwyddiadau dysgu o achosion ac i rannu ac archwilio'r hyn a ddysgwyd o archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau, ond gellir eu defnyddio hefyd i ddarparu cyfleoedd pwysig eraill yn lleol ac ar sail amlasiantaethol er mwyn i ymarferwyr a rheolwyr ddysgu fel a ganlyn:

- **Dysgu o achosion**: Bydd ymarferwyr, rheolwyr neu grwpiau craidd yn cynnal trafodaethau a hwylusir, yn ymgynghori ac yn myfyrio, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar systemau o archwilio a dadansoddi achosion unigol cyfredol neu achosion unigol nad ydynt yn weithredol bellach. Gallai'r achosion hyn gynnwys achosion cymhleth a arweiniodd at ganlyniadau da, achosion cyfredol sydd wedi dod i stop, neu achosion sy'n peri pryder i weithwyr proffesiynol neu sydd o ddiddordeb iddynt ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion cryno neu estynedig.

- **Rhannu gwybodaeth newydd a chanfyddiadau**: Rhannu gwybodaeth newydd a chanfyddiadau o archwiliadau amddiffyn oedolion amlasiantaethol, adolygiadau ymarfer oedolion, arolygiadau neu ffynonellau lleol neu genedlaethol eraill er mwyn sicrhau y ceir cyfleoedd dysgu a datblygu amlbroffesiynol parhaus yn lleol.

## Dysgu o achosion

5.6 Dylai'r fforymau sy'n canolbwyntio ar ddysgu o achosion fod yn ddigwyddiadau a hwylusir, a gynhelir mewn amgylcheddau sy'n darparu cefnogaeth ddiogel a phroffesiynol a her broffesiynol. Dylai fod gan y fforymau set glir o egwyddorion neu brosesau gweithio fel bod y staff yn gwybod beth i'w ddisgwyl a bod cyfrinachedd unrhyw ddeunydd sy'n perthyn i achos yn cael ei barchu. Gall y fforymau ddefnyddio ystod o ddulliau creadigol sydd eisoes yn gyfarwydd ym maes hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, megis goruchwyliaeth amlasiantaethol, ymchwiliad gwerthfawrogol neu gerflunio, fel y bo'n briodol. Dylid cofnodi'r hyn a ddysgwyd o ymarfer ac adrodd yn ffurfiol yn ei gylch wrth y Bwrdd. Gallai'r hyn a ddysgwyd gael ei rannu'n ehangach â'r staff, a dylai lywio adolygiad blynyddol y Bwrdd o'i Gynllun Busnes.

5.7 Dylai'r fforymau ganiatáu i staff archwilio asesiadau, prosesau gwneud penderfyniadau ac ymarfer yn agored gyda'i gilydd. Fodd bynnag, os bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghenion staff unigol o ran hyfforddiant neu achosion o ddiofalwch gan staff yn dod i'r amlwg wrth i fforwm proffesiynol amlasiantaethol fynd rhagddo, dylid ymdrin â hwy trwy weithdrefnau'r asiantaeth berthnasol ei hun ar gyfer staff.

5.8 Os caiff rhywfaint o bryder ei nodi ar unrhyw adeg, disgwylir y bydd hynny'n peri i adolygiad ymarfer oedolion cryno neu estynedig gael ei gynnal dan Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015. Yna, dylid adrodd ynghylch yr achos wrth Gadeirydd y Bwrdd a chyfeirio'r achos at yr *Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion* er mwyn ei ystyried a gweithredu yn ei gylch (fel y nodwyd ym mhenodau 6 neu 7).

## Rhannu gwybodaeth a chanfyddiadau newydd

5.9 Efallai y bydd yr hyn a ddysgwyd o fforymau sydd wedi bod yn ymwneud ag achosion unigol, neu'r gwaith o rannu canfyddiadau o archwiliadau a ffynonellau eraill, yn gofyn am gamau gweithredu lleol ar ffurf newidiadau i bolisi gweithredol, protocolau, ymarfer neu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, a dylai hynny ddigwydd yn brydlon ac yn ddi-oed.

5.10 Os bydd yr hyn a ddysgwyd o'r fforymau yn berthnasol i gynulleidfa ehangach, bydd angen i'r Bwrdd ddatblygu cynlluniau ar gyfer rhannu'r wybodaeth yn lleol a/neu'n genedlaethol, er enghraifft, trwy'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu. Os bydd angen cyfleu negeseuon i asiantaethau'n lleol, dylai'r broses gael ei rheoli gan is-grŵp sefydlog perthnasol y Bwrdd.

5.11 Er mwyn i'r fforymau hyn fod yn effeithiol, mae angen ymrwymiad cynrychiolwyr uwch yr asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd ac mae angen cefnogaeth gadarnhaol gan asiantaethau i alluogi staff proffesiynol i ddefnyddio'r cyfleoedd dysgu hyn.

5.12 Bydd y rhaglen waith yn golygu y bydd angen i'r Bwrdd ddarparu adnoddau ac y bydd angen i'r Grŵp Sicrhau Ansawdd gynnal gwerthusiad o dro i dro i ganfod yr effaith y mae'r rhaglen yn ei chael ar ymarfer amddiffyn oedolion yn lleol. Dylid adrodd yn ôl wrth y Bwrdd ynghylch y canfyddiadau.

5.13 Ceir enghreifftiau lle mae'r dull hwn o weithredu wedi'i ddatblygu eisoes gan Fyrddau yng Nghymru, a dylai profiad o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda gael ei rannu ymysg y Byrddau. Ceir tair enghraifft isod:

> Mae un Bwrdd wedi sefydlu trefn ymgynghoriad achos amlasiantaethol ers nifer o flynyddoedd, wedi'i gychwyn gan ymarferwyr ac yn dod â staff allweddol ynghyd i edrych ar achosion sydd mewn rhigol neu'n anodd o bosib, a goruchwylio mewn ffordd ystyriol. Bu'n llwyddiannus iawn wrth adeiladu dealltwriaeth o'r angen am gyfrifoldeb amlasiantaethol dros waith gyda theuluoedd.

> Cynhaliwyd digwyddiad dysgu wedi'i hwyluso gan un Bwrdd er mwyn i ymarferwyr ystyried achos o esgeuluso difrifol nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad cryno. Nodwyd rhai pwyntiau allweddol i'w dysgu a negeseuon i'r Bwrdd. Yn bwysicach fyth, roedd yn cael ei werthfawrogi gan yr ymarferwyr gan ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth adeiladol, gwerthfawr, heb fod yn fygythiol. Roedd yn ffordd o edrych ar safbwyntiau asiantaethau eraill a'u deall yn well, ynghyd â'r berthynas i'w hadeiladu rhwng asiantaethau. Roedd y broses yn amlygu'r gwaith cadarnhaol a waned gan y teulu a'r ymarferwyr, ac yn dangos y cynnydd a wnaed eisoes.

> Mae Bwrdd arall wedi sefydlu rhaglen ar gyfer fforymau ymarferwyr amlasiantaeth, ar sail cynnal tri gweithdy amlasiantaethol o leiaf bob blwyddyn ar gyfer dysgu arferion penodol o achosion wedi'u harchwilio, a phedwerydd i ddosbarthu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau achosion ar sail y model adolygiadau ymarfer plant. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys o leiaf 50 o ymarferwyr o wahanol wasanaethau ar unrhyw adeg benodol.

5.14 Felly, mae fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn seiliedig ar rywfaint o brofiad blaenorol hirdymor, ac maent yn manteisio ar arfer da ar draws y Byrddau yng Nghymru.

# 6 Adolygiadau Ymarfer Oedolion Cryno

**Meini prawf ar gyfer adolygiad cryno**

6.1 Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion cryno[7] pan fo oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd **heb** , ar unrhyw adeg yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

**Y broses ar gyfer cynnal adolygiad cryno**

6.2 Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd, asiantaeth neu ymarferwr fynegi pryder am achos y credir ei fod yn bodloni'r meini prawf uchod. Gellir gofyn am gyngor gan aelod yr asiantaeth ar y Bwrdd cyn cyfeirio'r achos. Fodd bynnag, dylid anfon unrhyw atgyfeiriad o'r fath at Reolwr Busnes y Bwrdd (neu unigolyn cyfatebol) a fydd yn sicrhau bod Cadeirydd y Bwrdd yn cael gwybod amdano. Bydd gan bob Bwrdd *Is-grŵp (neu Is-bwyllgor) Adolygiad Ymarfer Oedolion*. Dylid anfon yr atgyfeiriad at Gadeirydd yr is-grŵp hwnnw wedyn i'w ystyried.

6.3 Dangosir y broses adolygu ar ffurf siart lif (Ffigur 2, tudalen 27).

6.4 Dylid nodi efallai bod materion y gallai fod angen eu trafod a'u datrys gan yr *Is-grŵp Adolygiadau* cyn y gellir trefnu *Panel Adolygu* i reoli'r adolygiad.

6.5 **Pan fo mwy nag un Bwrdd yn ymwneud â'r achos:** pan fydd atgyfeiriad a ddaw i law'r *Is-grŵp Adolygiadau* yn ymwneud â mwy nag un Bwrdd, bydd angen sicrhau cydweithredu a chynllunio gofalus rhwng *Is-grwpiau Adolygiadau* perthnasol y Byrddau hynny er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen. Dylid dilyn yr egwyddor arweiniol mai Bwrdd yr ardal y mae'r unigolyn yn preswylio ynddi, neu yr oedd yn preswylio ynddi fel arfer, ddylai fod yn bennaf cyfrifol am gynnal yr adolygiad. Dylid rhoi gwybod i'r Byrddau perthnasol am y penderfyniad a wneir ynghylch y modd y caiff yr adolygiad ei drin.

6.6 **Pan fo mwy nag un Bwrdd mewn gwahanol wledydd yn ymwneud â'r achos:** pan fydd atgyfeiriad a ddaw i law'r *Is-grŵp Adolygiadau* yn ymwneud â mwy nag un awdurdod mewn gwahanol wledydd yn y Deyrnas Unedig, bydd yr egwyddor o breswyliaeth arferol yn penderfynu pa Fwrdd ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gynnal adolygiad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen sicrhau cydweithredu a chynllunio gofalus rhwng Byrddau er mwyn cytuno ar sut y caiff y gweithdrefnau adolygu perthnasol eu dilyn a sut y bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion ychwanegol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i'r penderfyniadau hynny gynnwys y llywodraethau perthnasol er mwyn sicrhau cytundeb os oes gwahaniaethau trawsffiniol rhwng y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl a chyhoeddi.

**7** Rheoliad 4(3) o *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.*
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1466/contents/made

**Pan fo adolygiadau cyfochrog i ymarfer yn ymwneud â'r achos:** mae nifer o gyfrifoldebau statudol i adolygu marwolaethau a digwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau dynladdiad domestig, darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn achos o ddynladdiad, neu ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf pan fydd unigolyn yn marw yn y ddalfa.

6.7 Lle bo achosion yn arwain at adolygiadau ymarfer cyfochrog eraill, dylai'r *Is-grŵp Adolygiadau*:

- Ystyried y cyfleoedd a'r trefniadau posibl ar gyfer cydlynu â'r cyrff eraill sy'n ymwneud â hyn.
- Trafod â'r cyrff hynny a chytuno sut y mae proses adolygu gydlynol neu sy'n cael ei chomisiynu ar y cyd yn mynd i'r afael orau â'r canlyniadau y mae angen eu cyflawni, yn y ffordd fwyaf effeithiol a heb lawer o oedi.
- Ystyried adroddiad ar y cyd neu ychwanegu cwestiynau ychwanegol at gylch gorchwyl yr adolygiad.
- Sicrhau y caiff buddion unigolyn eu cynrychioli'n briodol bob amser mewn ymchwiliadau ymarfer eraill.
- Rhoi argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion ar y ffordd ymlaen.

Dylai Cadeirydd y Bwrdd wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r *Is-grŵp Adolygiadau* am ei benderfyniad o ran yr argymhelliad ynghylch y ffordd ymlaen.
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd.
- Ar ddiwedd yr adolygiad, os caiff ei gynnal gan gorff adolygu arall, sicrhau bod y Bwrdd bob amser yn ystyried yr adroddiad, ac y caiff pwyntiau dysgu dienw sy'n berthnasol i'r unigolyn neu unigolion eu cyhoeddi.
- Sicrhau y rhoddir cynllun gweithredu ar waith yn ôl yr angen.

6.8 **Ymchwiliadau cydamserol gan yr heddlu neu weithrediadau barnwrol cydamserol:** pan fydd yr achos yn destun ymchwiliadau gan yr heddlu neu weithrediadau barnwrol, ni ddylai'r rhain atal camau i sefydlu adolygiad ymarfer oedolion na gohirio camau adfer a gymerir ar unwaith i wella gwasanaethau. Mae'n bwysig deall pwrpas y broses adolygu, sef cefnogi gwaith dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol yn y dyfodol, ac mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar y pwrpas hwnnw. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cyhoeddi canllawiau sy'n cydnabod bod modd rheoli adolygiadau ymarfer plant ac achosion troseddol ar yr un pryd. Byddai'r un egwyddor yn wir ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion. Mae'r

canllawiau'n cynnwys fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a geir drwy'r ddwy broses.[8]

6.9 **Perthynas â phrosesau ffurfiol eraill sy'n ymwneud â staff:** mae'r broses adolygu'n ymwneud â dysgu o ymarfer. Os bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghenion staff unigol o ran hyfforddiant neu achosion o gamymarfer gan staff yn dod i'r amlwg yn ystod adolygiad cryno, dylid eu cyfeirio ac ymdrin â hwy trwy weithdrefnau'r asiantaeth berthnasol ei hun ar gyfer staff.

6.10 Hyd yn oed pan fydd prosesau neu ymchwiliadau ffurfiol eraill yn mynd rhagddynt, megis gweithdrefnau cwyno, nid oes rheswm i ohirio cynnal adolygiad ymarfer oedolion. Bydd adolygiad yn canolbwyntio ar ddysgu er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol, ac nid yw'n rhyw fath o broses ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylai'r Bwrdd ystyried sut y gallai prosesau eraill gydredeg ag adolygiad ymarfer oedolion, a dylid rhannu'r gwaith dysgu perthnasol sy'n deillio o'r gwahanol brosesau.

6.11 **Pan fo mwy nag un oedolyn blaen yn destun adolygiad[9]:** mae'n bosibl y ceir achosion pan fydd mwy nag un oedolyn wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod ac y bydd pob oedolyn yn destun yr un adolygiad, h.y. bydd sawl oedolyn blaen yn destun yr adolygiad hwnnw. Rhaid i'r broses adolygu ystyried safbwynt a phrofiad pob oedolyn yn unigol, ond rhaid sicrhau bod y gwaith dysgu sy'n deillio o amgylchiadau'r oedolion yn cael ei gyfuno mewn un adroddiad cynhwysfawr ar ddiwedd yr adolygiad. Mae'n bwysig bod Cadeirydd y Bwrdd yn cael gwybod gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, yn ei argymhelliad ynghylch y ffordd ymlaen, am bob oedolyn sydd i'w gynnwys yn yr adolygiad.

**Argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd**

6.12 Ar ôl cael atgyfeiriad, caiff penderfyniad yr *Is-grŵp Adolygiadau* ynghylch sut i symud ymlaen ei anfon fel argymhelliad at Gadeirydd y Bwrdd, gyda'r wybodaeth ganlynol*:*

- amlinelliad byr o amgylchiadau'r achos;
- y rhesymau dros gynnal adolygiad cryno;
- y cylch gorchwyl arfaethedig;
- llinell amser ar gyfer yr adolygiad;
- asesiad o'r problemau tebygol o ran cyfathrebu a'r cyfryngau, yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

6.13 Mae templed (Atodiad 1) wedi'i ddarparu ar gyfer hyn er mwyn symleiddio'r broses, sicrhau cysondeb a darparu adroddiad at ddiben rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am bob achos sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad cryno ac sydd wedi'i ystyried gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, gan gynnwys yr achosion hynny lle gallai'r Bwrdd Diogelu Oedolion arweiniol fod mewn gwlad arall, a dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ganlyniad yr argymhelliad.

6.14 Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn rhoi gwybod i'r *Is-grŵp Adolygiadau* am ei benderfyniad ynghylch cymeradwyo ai peidio yr argymhelliad i gynnal adolygiad cryno, a bydd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd. Os bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gwrthod yr argymhelliad i

**8** Cysylltu a rhannu gwybodaeth pan fo achos troseddol yn cyd-daro ag Adolygiad Achos Difrifol neu Adolygiad Ymarfer Plant: http://www.cps.gov.uk/publications/docs/liaison_and_information_exchange.pdf

**9** Oedolyn blaen (Index adult) yw'r term a ddefnyddir i nodi'r oedolyn sy'n destun ac yn ffocws adolygiad, er mwyn gwahaniaethu rhwng yr oedolyn hwnnw ac oedolion eraill a allai fod yn ymwneud â'r achos hefyd. Mewn rhai adolygiadau, mae'n bosibl y bydd mwy nag un oedolyn wedi marw neu wedi cael niwed sylweddol, ac y gallent i gyd fod yn destun yr un adolygiad. Byddant i gyd yn 'oedolion blaen' yr adolygiad hwnnw.

gynnal adolygiad cryno, dylid rhoi gwybod i'r Bwrdd a dylid cynnal trafodaeth bellach. Os gwrthod yr argymhelliad yw'r penderfyniad terfynol, bydd angen i Gadeirydd y Bwrdd roi gwybod yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru gan nodi'r rhesymau a roddwyd, a dylid adrodd ynghylch unrhyw safbwyntiau croes i'w gilydd hefyd.

6.15 Os penderfynir cymeradwyo'r argymhelliad, bydd yr *Is-grŵp Adolygiadau* yn sefydlu *Panel Adolygu* amlasiantaethol i reoli'r adolygiad.

**Cylch Gorchwyl**

6.16 Caiff cylch gorchwyl cychwynnol ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd ar sail yr wybodaeth sy'n hysbys ar y pryd. Dylid nodi bod y cylch gorchwyl yn **ddogfen fyw** ac nad yw'n ddigyfnewid. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r cylch gorchwyl yng ngoleuni gwybodaeth newydd ar unrhyw adeg yn ystod adolygiad cryno. Y *Panel Adolygu* fydd yn gyfrifol am gytuno ar unrhyw amrywiad i'r cylch gorchwyl.

6.17 Caiff y cylch gorchwyl terfynol (dienw) ei gynnwys yn yr adroddiad ar ddiwedd yr adolygiad.

6.18 Mae enghraifft o gylch gorchwyl wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

**Panel Adolygu**

6.19 Bydd y *Panel Adolygu* yn rheoli'r broses adolygu ac yn chwarae rôl allweddol o safbwynt sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r achos. Dylid penodi cynrychiolwyr i'r *Panel* Adolygu o'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos. Dylai fod gan aelodau'r *Panel Adolygu* wybodaeth ddigonol am y gwasanaethau ond ni ddylent fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos. Dylid llunio *Panel Adolygu* amlasiantaethol bob amser, hyd yn oed os un asiantaeth neu nifer fach o asiantaethau'n unig o bosibl sy'n ymwneud â'r achos. Gan fod y *Panel Adolygu* yn rhan annatod o'r broses adolygu, mae'n hanfodol sicrhau cysondeb o ran aelodaeth y *Panel Adolygu* a chysondeb o ran presenoldeb yng nghyfarfodydd y *Panel Adolygu.* Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu dirprwyon.

6.20 Bydd y *Panel Adolygu* yn gofyn i wasanaethau sydd wedi bod yn ymwneud â'r unigolyn a'r teulu ddarparu gwybodaeth am gyswllt â'r teulu drwy baratoi llinell amser yr asiantaeth o ddigwyddiadau arwyddocaol (o fewn amserlen y cytunir arni â'r *Panel Adolygu* – gweler paragraff 6.21 ) a bydd yn gofyn iddynt ddarparu dadansoddiad byr o'r cyd-destun, y problemau neu'r digwyddiadau perthnasol. Gellir cynnwys gwybodaeth am gamau gweithredu a gymerwyd eisoes neu argymhellion gan y staff ynghylch gwelliannau i systemau neu ymarfer yn y dyfodol, os yw hynny'n briodol. Dylai'r gwaith o baratoi llinellau amser a dadansoddiadau gael ei gyflawni gan reolwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldeb gweithredol am yr achos ond sy'n deall y gwasanaeth.

**Llinellau amser a genogram**

6.21 Dylid paratoi **llinell amser** ar gyfer cyfnod nad yw'n hwy na 12 mis cyn y digwyddiad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y ceir estyn y llinell amser 12 mis, ond gan mai ymarfer cyfredol yw ffocws yr adolygiad ni ddylai'r llinell amser yn yr achosion hynny fod yn hwy na 2 flynedd. Gellir estyn y llinell amser i gynnwys penderfyniadau a chamau gweithredu yn dilyn y digwyddiad. Dylai'r *Panel Adolygu* gytuno ar unrhyw achos o estyn y llinell amser.

6.22 Pan fydd gwybodaeth gefndir arwyddocaol ar gael neu wybodaeth am ddigwyddiad blaenorol, gellir ei chynnwys yn y dadansoddiad byr sy'n cyd-fynd â'r llinell amser. Mae hanes y teulu yn hanfodol bwysig, ond y mater allweddol mewn adolygiad yw pwy oedd yn gyfarwydd â hanes y teulu, sut y cafodd yr hanes ei rannu o fewn y rhwydwaith proffesiynol a sut y cafodd ei ystyried wrth wneud penderfyniadau cyfredol.

6.23 Dylai'r *Panel Adolygu* baratoi **genogram** llawn a chywir hefyd (a elwir yn Rhwydwaith Cysylltiadau Teuluol gan yr heddlu) fel modd i egluro cydberthnasau teuluol. Dylid ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau'r *Panel Adolygu* gyda'r adolygydd, a dylai fod ar gael i gyfeirio ato yn ystod pob cam o'r broses adolygu er na fydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a gaiff ei gyhoeddi.

6.24 Bydd y *Panel Adolygu* yn creu llinell amser gyfun o ddigwyddiadau arwyddocaol yn llinellau amser yr asiantaethau unigol. Yna caiff y llinell amser gyfun, y genogram a dadansoddiadau byr yr asiantaethau eu defnyddio gan aelodau'r *Panel Adolygu* a'r adolygydd i ddatblygu cwestiynau a syniadau am yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos. Bydd y ddealltwriaeth gychwynnol hon yn llywio gwaith paratoi ar gyfer digwyddiad dysgu i ymarferwyr a rheolwyr llinell er mwyn rhoi prawf ar broblemau ymarfer gweithredol a'u harchwilio ymhellach. Bydd dogfennau a deunydd ysgrifenedig perthnasol arall ar gael i'r adolygydd hefyd, fel y bo'n briodol, a bydd yn eu darllen. Mae'n bosibl y bydd materion i'w hegluro yn codi yn ystod trafodaethau, a bydd y *Panel Adolygu* yn gofyn i wasanaethau ymateb; mae'n bosibl y caiff cylch gorchwyl yr adolygiad ei ddiwygio neu'i estyn o ganlyniad i hynny.

6.25 Ar unrhyw adeg wrth gynnal adolygiad cryno, mae'n bosibl y bydd y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygydd yn dod i'r casgliad, o'r dadansoddiad o linellau amser neu ffynonellau eraill, nad yw'r adolygiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad cryno neu na ellir cynnal yr adolygiad fel y nodir yn y canllawiau. Os deuir â'r adolygiad cryno i ben, bydd angen:

a. cytundeb y *Panel Adolygu*,
b. ysgrifennu adroddiad a'i gyflwyno i'r Bwrdd,
c. Cadeirydd y *Panel Adolygu* i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd gymeradwyo'r cam gweithredu,
ch. rhoi gwybod i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru.

6.26 Bydd angen i'r adroddiad nodi nid yn unig y rhesymau dros derfynu, ond hefyd y camau gweithredu amgen arfaethedig i alluogi dysgu.

**Comisiynu Adolygydd**

6.27 Bydd y *Panel Adolygu* yn dewis ac yn comisiynu adolygydd y mae'n rhaid iddo fod yn annibynnol ar reolwyr yr achos ac a allai fod yn aelod o'r Bwrdd neu'n aelod o Fwrdd arall, neu a allai fod yn rhywun o awdurdod cyfagos neu'n unigolyn sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr achos. Gellir mesur profiad perthnasol ar sail materion sy'n ymwneud ag iaith, ethnigrwydd, crefydd neu iechyd, megis anabledd, neu ffactorau eraill sy'n allweddol i amgylchiadau'r achos. [10]

6.28 Os bydd y *Panel Adolygu* o'r farn y byddai'n ddefnyddiol penodi unigolyn arall i weithio gyda'r adolygydd, o gofio amgylchiadau'r achos, dylid gwneud y trefniadau comisiynu priodol yn fuan.

**10** Er enghraifft, gellid gofyn i sefydliadau fel AFRUCA, *Africans Unite Against Child Abuse*, neu AAFDA, *Advocacy After Fatal Domestic Abuse*, roi cyngor, eiriolaeth ac arbenigedd.

6.29 Wrth ddewis adolygydd, bydd yn bwysig cofio bod ansawdd a phrofiad yr adolygydd yn allweddol i ansawdd y canlyniad. Mae'r rôl yn gofyn am ystod eang o wybodaeth, sgiliau a gallu sy'n cynnwys gwybodaeth drylwyr am systemau, materion, cyfrifoldebau ac ymarfer ym maes amddiffyn oedolion, dealltwriaeth o waith amlasiantaethol, y gallu i holi a chyfathrebu ynghylch ymarfer gyda gweithwyr proffesiynol ac unigolion ac aelodau'r teulu, a sgiliau i hwyluso a rheoli prosesau grŵp yn effeithiol. Wrth benodi adolygydd, bydd angen i'r Bwrdd fod yn fodlon bod ymarferion recriwtio diogel wedi'u dilyn.

**Ymgysylltu ag unigolion ac aelodau'r teulu yn ystod y broses adolygu**

6.30 Mae ymgysylltu ag aelodau'r teulu a gwrando ar eu safbwyntiau a'u profiadau yn hanfodol i'r broses o ddatblygu gwaith dysgu pan fydd achos yn cael ei adolygu. Gallai aelodau'r teulu gynnwys yr unigolyn, plant, rhieni, gofalwyr neu aelodau pwysig eraill o'r teulu (fel y bo'n briodol i'r achos). Ble bynnag y bo modd, dylid rhoi gwybod iddynt am yr adolygiad a dylid cynnwys eu barn yn y broses adolygu. Bydd angen i'r *Panel Adolygu* ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny. Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o wneud hynny fydd cysylltu ag aelodau'r teulu a siarad â hwy am bwrpas y broses adolygu, a gweithio gyda hwy i nodi'r negeseuon, y safbwyntiau neu'r profiadau y byddent am eu cyfrannu i'r hyn y bydd ymarferwyr yn ei ddysgu mewn digwyddiad dysgu a nodi'r hyn y gallent ei ddisgwyl o'r adolygiad.

6.31 Bydd angen i'r *Panel Adolygu* a'r adolygydd drafod sut y caiff cyswllt o'r fath ei sicrhau. Mewn rhai achosion, gallai gynnwys y gweithiwr proffesiynol arweiniol neu bobl eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn a'r teulu. Mae profiad wedi dangos bod gan yr adolygydd rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt cyfarfod â'r unigolyn ac aelodau eraill y teulu ychydig cyn y digwyddiad dysgu, os yw hynny'n briodol ac os yw'r teulu yn dymuno, a chyfleu eu negeseuon yn y digwyddiad.

6.32 Mae'n bwysig i unigolyn gael cyfle i gyfrannu i'r adolygiad er mwyn eu helpu i ddylanwadu ar yr hyn y bydd y sawl sy'n ymwneud â'r adolygiad yn ei ddysgu, a'u bod yna'n cael y cyfle i weld yr adroddiad a'i ganfyddiadau a'u trafod ar ddiwedd yr adolygiad.

6.33 Dylai'r Bwrdd feddwl yn greadigol ynghylch sut y gellir cael teuluoedd i ymgysylltu â'r adolygiad a sut y darperir gwybodaeth esboniadol i unigolion ac aelodau'r teulu, gan ystyried amgylchiadau megis anabledd ac iaith gyntaf. Ceir enghraifft isod:

> Lluniwyd taflen gan adolygydd i'w defnyddio gan unigolion yn ystod trafodaeth gyda nhw, ac i'w gadael ar ddiwedd yr ymweliad. Roedd yn egluro pam fod yr adolygiad yn cael ei gynnal, sut y byddai'n cael ei gynnal, a chyfrifoldebau'r adolygydd. Roedd yn cynnwys cwestiynau I helpu'r unigolyn i gyfrannu at yr adolygiad, ynghyd â manylion cyswllt i'r unigolyn eu defnyddio yn ôl yr angen.

6.34 Bydd angen gwneud trefniadau gofalus ar gyfer adrodd yn ôl ar ddiwedd yr adolygiad a rhannu canfyddiadau'r adroddiad. Mae'n bosibl mai'r adolygydd a/neu Gadeirydd y *Panel Adolygu* fydd yr unigolyn mwyaf priodol i wneud hynny. Bydd ymatebion aelodau'r teulu ynghylch a fyddant am gael adborth, a sut y byddant am ei gael, yn amrywio ac efallai y byddant am ei gael dros y ffôn neu drwy lythyr yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Bydd angen ystyried yn ofalus amseriad y broses o rannu cynnwys yr adroddiad, o ran y dyddiad cyhoeddi a materion sensitif eraill i'r teulu. Ni ddylid rhoi

copïau o’r adroddiad i aelodau’r teulu eu cadw nes y bydd wedi ei gwblhau’n derfynol, ei gymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Oedolion a’i gyhoeddi.

6.35 Gallai fod gan yr adborth nifer o swyddogaethau, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallai ddarparu sicrwydd neu ddilysiad, gallai helpu i dynnu llinell neu ddarparu trobwynt mewn rhaglen o ofal a thriniaeth, neu gallai beri poen meddwl neu ailddeffro atgofion poenus. Mewn rhai amgylchiadau, mae’n bosibl y bydd angen sicrhau bod cymorth priodol gan weithwyr proffesiynol allweddol ar gael i’r unigolion perthnasol neu aelodau’r teulu.

## Digwyddiad dysgu

6.36 Mae’r digwyddiad dysgu yn rhan allweddol o’r adolygiad. Mae’n sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu’n uniongyrchol i’r adolygiad, bod ymarferwyr yn gallu clywed safbwyntiau’r teulu yn ystod y digwyddiad a’u bod, gydag ymarferwyr eraill sydd wedi gweithio gyda’r unigolyn a’r teulu, yn gallu myfyrio ynghylch yr hyn a ddigwyddodd a nodi cyfleoedd i ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

6.37 Disgwylir i ymarferwyr a rheolwyr fynychu’r digwyddiad os gofynnir iddynt wneud hynny. Dylai’r *Panel Adolygu* feddwl yn greadigol ynghylch sut y gall ymarferwyr a rheolwyr llinell perthnasol ymgysylltu â’r adolygiad. Mewn rhai achosion, gallai fod yn briodol cynnal mwy nag un digwyddiad dysgu i sicrhau cyfraniad staff allweddol i’r broses ddysgu. Gellid cynnwys ystyriaeth a chadarnhad o’r prif bwyntiau dysgu fel rhan o’r digwyddiad dysgu neu gellid cynnal sesiwn ar wahân gyda chyfranogwyr y digwyddiad dysgu yn nes ymlaen. Y *Panel Adolygu* sy’n gyfrifol am gynorthwyo’r adolygydd i gynnal digwyddiad dysgu effeithiol.[11]

6.38 Fel rheol, bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn mynychu’r digwyddiad dysgu ar ran y Panel er mwyn sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i’r cwestiynau a’r materion a nodwyd ganddynt. Os bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn methu â mynychu, gall aelod addas arall o’r Panel fynychu.

6.39 Ar ddiwedd y digwyddiad dysgu, bydd yr adolygydd gyda’r ymarferwyr yn nodi materion a phwyntiau dysgu o ymarfer, sy’n berthnasol i un asiantaeth neu sy’n berthnasol ar sail ryngasiantaethol, er mwyn i’r *Panel Adolygu* eu hystyried a’u trafod ymhellach.

## Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

6.40 Yn dilyn y digwyddiad dysgu, bydd yr adolygydd yn gyfrifol am gasglu a chyfuno’r hyn a ddysgwyd hyd yma i’w drafod â’r *Panel Adolygu* ar ffurf adroddiad drafft, gan ddefnyddio’r templed y cytunwyd arno ac a amlinellir yn Atodiad 1. Bydd yr adolygydd hefyd yn gyfrifol am gadarnhau bod y broses ddysgu wedi’i chyflawni’n briodol.

6.41 Dylai’r adroddiad drafft fod yn gryno a dylai ganolbwyntio ar wella ymarfer. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, y gwaith dysgu o ymarfer a dysgu sefydliadol a nodwyd yn ystod yr adolygiad, gan dynnu sylw at ymarfer effeithiol, ac ystyriaethau ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol i wella ymarfer yn y dyfodol. Dylid nodi camau gweithredu a fydd yn arwain at welliannau o ran systemau ac ymarfer. Dylai’r camau gweithredu fod yn benodol, yn ymarferol ac

**11** Ar wefan Llywodraeth Cymru gellir gweld y canllawiau cyfatebol ar gyfer adolygiadau ymarfer plant, ynghyd â chanllaw ar gyfer trefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu

yn fforddiadwy, a dylai fod ganddynt ganlyniadau disgwyliedig sydd wedi'u diffinio'n glir.

6.42 Mae cyfarfodydd rhwng yr adolygydd a'r *Panel Adolygu* yn cyfuno cyfleoedd pwysig i sicrhau her broffesiynol â gwaith sicrhau ansawdd. Gellir ailarchwilio materion yn ymwneud ag ymarfer a nodwyd yn wreiddiol gan y *Panel Adolygu*, yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygydd a'r digwyddiad dysgu, ac mae'n bosibl y bydd materion wedi eu nodi y bydd angen eu hegluro ymhellach gydag ymarferwyr neu reolwyr neu'r *Panel Adolygu*. Pan gytunir arnynt, caiff copi drafft dienw o 'r adroddiad a chynllun gweithredu amlinellol eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae templed (yn Atodiad 1) wedi'i ddarparu ar gyfer adroddiad yr adolygiad.

6.43 Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod adolygiad wedi'i gynnal yn golygu bod ymarfer wedi bod yn anghywir, a gallai'r adolygydd ddod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newid i bolisi neu ymarfer gweithredol.

6.44 Cyfrifoldeb y *Panel Adolygu* fydd llunio crynodeb dienw o'r llinell amser gyfun (dylid cynnwys y llinell amser gryno gyda'r adroddiad pan gaiff ei gyhoeddi).

**Cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd**

6.45 Dylai Cadeirydd y *Panel Adolygu* a'r adolygydd gyflwyno'r adroddiad drafft a'r cynllun gweithredu amlinellol i'r Bwrdd. Mae cyflwyno'r adroddiad yn ffordd bwysig i'r Bwrdd gynnal perthynas agos ag ymarfer. Er mwyn cyflawni'r rôl hon bydd angen i'r adolygydd, wrth gyflwyno'r adroddiad drafft i aelodau'r Bwrdd, egluro manylion y llinell amser iddynt yn ogystal â'r materion yn ymwneud ag ymarfer a threfniadaeth sy'n codi o'r adolygiad. Rôl y Bwrdd yw ymgysylltu a chyfrannu at ddadansoddi materion sy'n gysylltiedig ag achosion; darparu her briodol; a sicrhau y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad i lywio gwaith datblygu systemau ac ymarfer.

6.46 Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn nodi materion dysgu ychwanegol neu gamau gweithredu sydd o bwys strategol i asiantaethau unigol neu i gydgyfrifoldeb y Bwrdd. Gellir cynnwys y rhain yn yr adroddiad terfynol neu yn y cynllun gweithredu, fel y bo'n briodol.

6.47 Yna, bydd y *Panel Adolygu* a'r adolygydd yn cwblhau'r adroddiad terfynol i adlewyrchu'r ystod o waith dysgu a nodwyd. Cyfrifoldeb y Bwrdd yw derbyn yr adroddiad a darparu cyfeiriad o safbwynt y cynllun gweithredu arfaethedig.

6.48 Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyflwyno'r adroddiad i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru, a fydd yna'n cynnwys rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaethau fel y bo'n briodol er gwybodaeth.. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael yr adroddiad ddim llai na phythefnos cyn dyddiad cyhoeddi arfaethedig y Bwrdd.

6.49 Caiff adroddiad terfynol yr adolygiad ymarfer oedolion ynghyd â'r llinell amser gryno eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos. Bydd cyfeiriad ar y wefan wedi hynny a fydd yn dangos bod yr adroddiad ar gael o ofyn amdano.

6.50 Caiff y broses adolygu ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd ond fel arfer cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad cyfeirio'r achos at *Is-grŵp Adolygiadau* y Bwrdd.

## Cynllun gweithredu

6.51 Bydd y *Panel Adolygu* a'r adolygydd yn gyfrifol am baratoi cynllun gweithredu amlinellol i gyd-fynd â'r adroddiad drafft, i'w gyflwyno a'i drafod gan y Bwrdd. Dylai'r cynllun gweithredu adlewyrchu'r gwaith dysgu a nodwyd yn yr adroddiad , a dylai gynnwys ymarfer effeithiol lle bo'n briodol. Gellir cyfeirio'r camau gweithredu at asiantaethau unigol neu gellir nodi bod angen cymryd camau gweithredu amlasiantaethol. Dylai'r cynllun gweithredu ganolbwyntio ar ganlyniadau, a dylai ddangos mai bwriad y camau gweithredu yw gwneud gwahaniaeth i systemau lleol ac ymarfer amddiffyn oedolion. Dylai fod gan y cynllun gweithredu ffocws clir ar wella canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd.

6.52 Dylai'r *Panel Adolygu* a'r adolygydd baratoi'r cynllun gweithredu terfynol gan adlewyrchu trafodaethau'r Bwrdd. Dylai hynny ddigwydd cyn pen pedair wythnos ar ôl i'r Bwrdd ystyried yr adroddiad, a dylid anfon y cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bwrdd er mwyn i'r asiantaethau sy'n aelodau ohono ei gymeradwyo. Yna, dylid ei anfon i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.

6.53 Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, ac adroddir yn eu cylch wrth y Bwrdd. Rhaid i'r broses hon gynnwys dosbarthu'r adroddiad a'r cynllun gweithredu i staff lleol, fel y bo'n briodol. Rhaid i is-grwpiau'r Bwrdd priodol ystyried y pwyntiau dysgu pwysig a sut I'w hymgorffori i unrhyw newidiadau I'r systemau ac arferion gweithredol, hyfforddiant a goruchwyliaeth, ac wrth lunio blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Bwrdd yn y dyfodol.

6.54 Dylai cynlluniau gweithredu arwain at welliannau mewn ymarfer diogelu, a bydd angen i'r Bwrdd sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu harchwilio'n ofalus i weld a ydynt wedi'u cyflawni a pha effaith a gawsant, ac a ydynt yn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd.

6.55 Gallai'r *Panel Adolygu* , yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu, ofyn i'r adolygydd gynnal digwyddiad gyda grwpiau o staff, naill ai er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd neu er mwyn olrhain yr effaith y mae'r newidiadau a wneir o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad yn ei chael ar ymarfer.

6.56 Bydd angen i'r *Is-grŵp Hyfforddiant* a'r *Is-grŵp Archwilio* gynnwys unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad cryno yn rhaglenni hyfforddiant a rhaglenni archwilio'r Bwrdd yn y dyfodol, neu bydd angen i'r materion hynny gael eu hymgorffori yn rhaglen waith y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol.

6.57 Ar ôl i'r camau gweithredu gael eu cwblhau, bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gymeradwy o gan y Bwrdd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaethau ynghylch y gwahaniaeth y mae'r camau gweithredu a gymerwyd wedi'i wneud i ymarfer.

# 7 Adolygiadau Ymarfer Oedolion Estynedig

**Meini prawf ar gyfer adolygiad estynedig**

7.1 Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer oedolion estynedig[12] pan fo oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd heb, ar unrhyw adeg yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

**Y broses ar gyfer cynnal adolygiad estynedig**

7.2 Dylid dilyn yr un broses a ddefnyddir ar gyfer cynnal adolygiad cryno (fel y nodir ym mhennod 6) wrth gynnal adolygiad estynedig. Mae'r materion ychwanegol y dylid mynd i'r afael â nhw mewn adolygiadau estynedig I'w gweld ym mharagraff 7.13. Er hwylustod wrth ddarllen:

- Mae paragraffau 7.3 – 7.12 yr un fath â 6.3 – 6.12.

7.3 Dangosir y broses adolygu ar ffurf siart lif (ffigur 2, tudalen 27).

7.4 Dylid nodi efallai bod materion y gallai fod angen eu trafod a'u datrys gan yr *Is-grŵp Adolygiadau* cyn y gellir trefnu *Panel Adolygu* i reoli'r adolygiad.

7.5 **Pan fo mwy nag un Bwrdd yn ymwneud â'r achos:** pan fydd atgyfeiriad a ddaw i law'r *Is-grŵp Adolygiadau* yn ymwneud â mwy nag un Bwrdd, bydd angen sicrhau cydweithredu a chynllunio gofalus rhwng *Is-grwpiau Adolygiadau* perthnasol y Byrddau hynny er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen. Dylid dilyn yr egwyddor arweiniol mai Bwrdd yr ardal y mae'r unigolyn yn preswylio ynddi, neu yr oedd yn preswylio ynddi fel arfer, ddylai fod yn bennaf cyfrifol am gynnal yr adolygiad. Dylid rhoi gwybod i'r Byrddau perthnasol am y penderfyniad a wneir ynghylch y modd y caiff yr adolygiad ei drin.

7.6 **Pan fo mwy nag un Bwrdd mewn gwahanol wledydd yn ymwneud â'r achos:** pan fydd atgyfeiriad a ddaw i law'r *Is-grŵp Adolygiadau* yn ymwneud â mwy nag un awdurdod mewn gwahanol wledydd yn y Deyrnas Unedig, bydd yr egwyddor o breswyliaeth arferol yn penderfynu pa Fwrdd ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gynnal adolygiad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen sicrhau cydweithredu a chynllunio gofalus rhwng Byrddau er mwyn cytuno ar sut y caiff y gweithdrefnau adolygu perthnasol eu dilyn a sut y bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion ychwanegol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i'r penderfyniadau hynny gynnwys yr adrannau llywodraeth perthnasol er mwyn sicrhau cytundeb os oes gwahaniaethau trawsffiniol rhwng y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl a chyhoeddi.

**12** Rheoliad 4(4) o *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*

**Pan fo adolygiadau cyfochrog i ymarfer yn ymwneud â'r achos:** mae nifer o gyfrifoldebau statudol i adolygu marwolaethau a digwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau dynladdiad domestig, darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn achos o ddynladdiad, neu ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf pan fydd unigolyn yn marw yn y ddalfa.

7.7 Lle bo achosion yn arwain at adolygiadau ymarfer cyfochrog eraill,

dylai'r *Is-grŵp Adolygiadau:*

- Ystyried y cyfleoedd a'r trefniadau posibl ar gyfer cydlynu â'r cyrff eraill sy'n ymwneud â hyn.
- Trafod â'r cyrff hynny a chytuno sut y mae proses adolygu gydlynol neu a gomisiynir ar y cyd yn mynd i'r afael orau â'r canlyniadau y mae angen eu cyflawni, yn y ffordd fwyaf effeithiol a heb lawer o oedi.
- Ystyried adroddiad ar y cyd neu ychwanegu cwestiynau ychwanegol at gylch gorchwyl yr adolygiad.
- Sicrhau y caiff buddion unigolyn eu cynrychioli'n briodol bob amser mewn ymchwiliadau ymarfer eraill;
- Rhoi argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd ar y ffordd ymlaen.

Dylai Cadeirydd y Bwrdd wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r *Is-grŵp Adolygiadau* am ei benderfyniad o ran yr argymhelliad ynghylch y ffordd ymlaen;
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd;
- Ar ddiwedd yr adolygiad, os caiff ei gynnal gan gorff adolygu arall, sicrhau bod y Bwrdd bob amser yn ystyried yr adroddiad, ac y caiff pwyntiau dysgu dienw sy'n berthnasol i'r unigolyn neu unigolion eu cyhoeddi.
- Sicrhau y rhoddir cynllun gweithredu ar waith yn ôl yr angen.

7.8 **Ymchwiliadau cydamserol gan yr heddlu neu weithrediadau barnwrol cydamserol:** pan fydd yr achos yn destun ymchwiliadau gan yr heddlu neu weithrediadau barnwrol, ni ddylai'r rhain atal camau i sefydlu adolygiad ymarfer oedolion na gohirio camau adfer a gymerir ar unwaith i wella gwasanaethau. Mae'n bwysig deall pwrpas y broses adolygu, sef cefnogi gwaith dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol yn y dyfodol, ac mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar y pwrpas hwnnw. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cyhoeddi canllawiau sy'n cydnabod bod modd rheoli adolygiadau ymarfer plant ac achosion troseddol ar yr un pryd. Byddai'r un egwyddor yn wir ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion. Mae'r

canllawiau'n cynnwys fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a geir drwy'r ddwy broses.[13]

7.9 **Perthynas â phrosesau ffurfiol eraill sy'n ymwneud â staff:** mae'r broses adolygu'n ymwneud â dysgu o ymarfer. Os bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghenion staff unigol o ran hyfforddiant neu achosion o gamymarfer gan staff yn dod i'r amlwg yn ystod adolygiad estynedig, dylid eu cyfeirio'n ôl ac ymdrin â hwy trwy weithdrefnau'r asiantaeth berthnasol ei hun ar gyfer staff.

7.10 Hyd yn oed pan fydd prosesau neu ymchwiliadau ffurfiol eraill yn mynd rhagddynt, megis gweithdrefnau cwyno, nid oes rheswm i ohirio cynnal adolygiad ymarfer oedolion. Bydd adolygiad yn canolbwyntio ar ddysgu er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol, ac nid yw'n rhyw fath o broses ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylai'r Bwrdd ystyried sut y gallai prosesau eraill gydredeg ag adolygiad ymarfer oedolion, a dylid rhannu'r gwaith dysgu perthnasol sy'n deillio o'r gwahanol brosesau.

7.11 **Pan fo mwy nag un oedolyn blaen yn destun adolygiad[14]:** mae'n bosibl y ceir achosion pan fydd mwy nag un oedolyn wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod ac y bydd pob oedolyn yn destun yr un adolygiad, h.y. bydd sawl oedolyn blaen yn destun yr adolygiad hwnnw. Rhaid i'r broses adolygu ystyried safbwynt a phrofiad pob oedolyn yn unigol, ond rhaid sicrhau bod y gwaith dysgu sy'n deillio o amgylchiadau'r unigolion yn cael ei gyfuno mewn un adroddiad cynhwysfawr ar ddiwedd yr adolygiad. Mae'n bwysig bod Cadeirydd y Bwrdd yn cael gwybod gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, yn ei argymhelliad ynghylch y ffordd ymlaen, am bob unigolyn sydd i'w gynnwys yn yr adolygiad.

**Argymhellion i Gadeirydd y Bwrdd**

7.12 Ar ôl cael atgyfeiriad, caiff penderfyniad yr *Is-grŵp Adolygiadau* ynghylch sut i symud ymlaen ei anfon fel argymhelliad at Gadeirydd y Bwrdd, gyda'r wybodaeth ganlynol:

- amlinelliad byr o amgylchiadau'r achos;
- y rhesymau dros gynnal adolygiad estynedig;
- y cylch gorchwyl arfaethedig ;
- llinell amser ar gyfer yr adolygiad ;
- asesiad o'r problemau tebygol o ran cyfathrebu a'r cyfryngau, yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

7.13 Mae templed (Atodiad 1) wedi'i darparu ar gyfer hyn er mwyn symleiddio'r broses, sicrhau cysondeb a darparu adroddiad at ddiben rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am bob achos sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad estynedig ac sydd wedi'i ystyried gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, gan gynnwys y rhai lle mae'r Bwrdd arweiniol mewn gwlad arall o bosib, a dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ganlyniad yr argymhelliad.

7.14 Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn rhoi gwybod i'r *Is-grŵp Adolygiadau* am ei benderfyniad ynghylch cymeradwyo ai peidio yr argymhelliad i gynnal adolygiad estynedig, ac yn rhoi gwybod i'r Bwrdd. Os bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gwrthod yr argymhelliad i gynnal adolygiad estynedig, dylid rhoi gwybod i'r Bwrdd a chynnal trafodaethau

**13** Liaison and information exchange when criminal proceedings coincide with Chapter Four Serious Case Reviews or Welsh Child Practice Reviews:http://www.cps.gov.uk/publications/docs/liaison_and_information_exchange.pdf
**14** *Oedolyn blaen (index adult)* yw'r term a ddefnyddir i nodi'r oedolyn sy'n destun ac yn ffocws adolygiad, er mwyn gwahaniaethu rhwng yr oedolyn hwnnw ac oedolion eraill a allai fod yn ymwneud â'r achos hefyd. Mewn rhai adolygiadau, mae'n bosibl y bydd mwy nag un oedolyn wedi marw neu wedi cael niwed sylweddol, ac y gallent i gyd fod yn destun yr un adolygiad. Byddant i gyd yn 'oedolion blaen' yr adolygiad hwnnw.

pellach. Os gwrthod yr argymhelliad yw'r penderfyniad terfynol, bydd angen i Gadeirydd y Bwrdd roi gwybod yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, gan nodi'r rhesymau a roddwyd, a dylid adrodd ynghylch unrhyw safbwyntiau croes i'w gilydd hefyd.

7.15 Os penderfynir cymeradwyo'r argymhelliad, bydd yr *Is-grŵp Adolygiadau* yn sefydlu *Panel Adolygu* amlasiantaethol i reoli'r adolygiad.

**Cylch Gorchwyl**

7.16 Caiff y cylch gorchwyl cychwynnol ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd ar sail yr wybodaeth sy'n hysbys ar y pryd. Dylid nodi bod y cylch gorchwyl yn **ddogfen fyw** ac nad yw'n ddigyfnewid. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r cylch gorchwyl yng ngoleuni gwybodaeth newydd, ar unrhyw adeg yn ystod adolygiad estynedig. Y *Panel Adolygu* fydd yn gyfrifol am gytuno ar unrhyw amrywiad i'r cylch gorchwyl.

7.17 Caiff y cylch gorchwyl terfynol (dienw) ei gynnwys yn yr adroddiad ar ddiwedd yr adolygiad.

7.18 Mae enghraifft o gylch gorchwyl wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

**Materion ychwanegol y dylai'r Adolygiad Estynedig fynd i'r afael â hwy**

7.19 Bydd materion ychwanegol i fynd i'r afael â hwy yn rhan o adolygiad estynedig, a bydd angen her broffesiynol allanol ychwanegol arnynt. Bydd lefel ychwanegol o graffu yn cynnwys yr angen i ystyried y materion canlynol wrth baratoi'r cylch gorchwyl a'r llinellau amser, ac yn ystod y digwyddiad dysgu:

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'u hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt yr oedolyn sy'n wynebu risg, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn sy'n wynebu risg;

- A oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg yn ddigon cadarn, ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn a'i amgylchiadau;

- A gafodd y cynllun ei weithredu'n effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a gweithredu'r cynllun amlasiantaethol;

- Yr agweddau ar y cynllun a weithiodd ac na weithiodd yn dda a pham. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn sy'n wynebu risg. A alwyd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol i rym;

- A gafodd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg a'r teulu eu cyflawni;

- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hynny gynnwys ystyriaeth i faterion trefniadaethol a materion cyd-destunol eraill).

7.20 Mae'n bosibl y bydd y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygwyr hefyd yn nodi materion perthnasol pellach yng nghyswllt amgylchiadau'r achos.

7.21 Gellir estyn y llinell amser 12 mis (gweler paragraff 7.23) ond dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol, i adlewyrchu'r cyfnod pan oedd yr unigolyn yn destun camau gweithredu i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Gellir estyn y llinell amser o 12 mis i hyd at ddwy flynedd os yw'r amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, ond bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar arfer cyfredol ac ar y cynllun diogelu/gofal priodol.

**Panel Adolygu**

7.22 Fel yn achos adolygiad cryno, bydd yr *Is-grŵp Adolygiadau* yn llunio'r cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr adolygiad estynedig (ceir enghraifft yn Atodiad 2) a bydd yn sefydlu *Panel Adolygu* amlasiantaethol. Fel yn achos adolygiad cryno, bydd y *Panel Adolygu* yn rheoli'r broses adolygu ac yn chwarae rôl allweddol o safbwynt sicrhau yr hyn a ddeellir ac a ddysgir o'r achos. Bydd y *Panel Adolygu* yn adeiladu ar y cylch gorchwyl cychwynnol a luniwyd gan yr *Is-grŵp Adolygiadau* a bydd yn datblygu cwestiynau a syniadau amyr hyn a ddigwyddodd yn yr achos, a gaiff eu llywio gan y llinell amser gyfun[15]o ddigwyddiadau arwyddocaol, dadansoddiadau'r asiantaethau a chyd-destun gwybodaeth leol. Caiff y cylch gorchwyl ei ddiwygio ymhellach yng ngoleuni gwybodaeth newydd neu drafodaethau'r *Panel Adolygu* a bydd angen cytuno arno gyda'r adolygwyr pan gânt eu penodi.

**Llinellau amser a genogram**

7.23 Dylid paratoi **llinell amser** ar gyfer cyfnod nad yw'n hwy na 12 mis cyn y digwyddiad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y ceir estyn y llinell amser 12 mis (gweler paragraff 7.21 uchod), ond gan mai ymarfer cyfredol yw ffocws yr adolygiad ni ddylai'r llinell amser yn yr achosion hynny fod yn hwy na 2 flynedd. Gellir estyn y llinell amser i gynnwys penderfyniadau a chamau gweithredu yn dilyn y digwyddiad. Dylai'r *Panel Adolygu* gytuno ar unrhyw achos o estyn y llinell amser.

7.24 Pan fydd gwybodaeth gefndir arwyddocaol ar gael neu wybodaeth am ddigwyddiad blaenorol, gellir ei chynnwys yn y dadansoddiad byr sy'n cyd-fynd â'r llinell amser. Mae hanes y teulu yn hanfodol bwysig, ond y mater allweddol mewn adolygiad yw pwy oedd yn gyfarwydd â hanes y teulu, sut y cafodd yr hanes ei rannu o fewn y rhwydwaith proffesiynol a sut y cafodd ei ystyried wrth wneud penderfyniadau cyfredol.

7.25 Dylai'r *Panel Adolygu* baratoi **genogram** llawn a chywir hefyd (a elwir yn Rhwydwaith Cysylltiadau Teuluol gan yr heddlu) fel modd i egluro cydberthnasau teuluol. Dylid ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau'r *Panel Adolygu* gyda'r adolygydd, a dylai fod ar gael i gyfeirio ato yn ystod pob cam o'r broses adolygu er na fydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a gaiff ei gyhoeddi.

7.26 Bydd y *Panel Adolygu* yn creu llinell amser gyfun o ddigwyddiadau arwyddocaol yn llinellau amser yr asiantaethau unigol. Yna caiff y llinell amser gyfun, y genogram a dadansoddiadau byr yr asiantaethau eu defnyddio gan aelodau'r *Panel Adolygu* a'r adolygydd i ddatblygu cwestiynau a syniadau am yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos. Bydd y ddealltwriaeth gychwynnol hon yn llywio gwaith paratoi ar gyfer digwyddiad

**15** Gwelwyd yn ystod y cynlluniau peilot bod gan yr heddlu feddalwedd sy'n creu genogramau a llinellau amser unigol a chyfun o ansawdd uchel, a oedd o gymorth mawr o ran hybu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith y Panelau Adolygu, yr adolygwyr a'r digwyddiadau dysgu

dysgu i ymarferwyr a rheolwyr llinell er mwyn rhoi prawf ar broblemau ymarfer gweithredol a'u harchwilio ymhellach. Bydd dogfennau a deunydd ysgrifenedig perthnasol arall ar gael i'r adolygydd hefyd, fel y bo'n briodol, a bydd yn eu darllen. Mae'n bosibl y bydd materion i'w hegluro yn codi yn ystod trafodaethau, a bydd y *Panel Adolygu* yn gofyn i wasanaethau ymateb; mae'n bosibl y caiff cylch gorchwyl yr adolygiad ei ddiwygio neu'i estyn o ganlyniad i hynny.

7.27 Ar unrhyw adeg wrth gynnal adolygiad estynedig, mae'n bosibl y bydd y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygydd yn dod i'r casgliad, o'r dadansoddiad o linellau amser neu ffynonellau eraill, nad yw'r adolygiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad neu na ellir cynnal yr adolygiad fel y nodir yn y canllawiau. Os deuir â'r adolygiad cryno i ben, bydd angen:
a. cytundeb y *Panel Adolygu*,
b. ysgrifennu adroddiad a'i gyflwyno i'r Bwrdd,
c. Cadeirydd y *Panel Adolygu* i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd gymeradwyo'r cam gweithredu,
ch. rhoi gwybod i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru.

7.28 Bydd angen i'r adroddiad nodi nid yn unig y rhesymau dros derfynu, ond hefyd y camau gweithredu amgen arfaethedig i alluogi dysgu.

**Comisiynu Adolygydd**

7.29 Bydd y *Panel Adolygu* yn dewis ac yn comisiynu adolygydd y mae'n rhaid iddo fod yn annibynnol ar reolwyr yr achos ac a allai fod yn aelod o'r Bwrdd neu'n aelod o Fwrdd arall, neu a allai fod yn rhywun o awdurdod cyfagos neu'n unigolyn sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr achos. Gellir mesur profiad perthnasol ar sail materion sy'n ymwneud ag iaith, ethnigrwydd, crefydd neu iechyd, megis anabledd, neu ffactorau eraill sy'n allweddol i amgylchiadau'r achos.

7.30 Caiff adolygiadau estynedig eu cynnal gan ddau adolygydd. Caiff un adolygydd ei benodi nad yw'n ymwneud â'r gwaith o reoli'r achos ond sydd â gwybodaeth am y cyd-destun lleol. Caiff yr adolygydd arall ei benodi i gyfrannu her broffesiynol allanol a phrofiad perthnasol. Bydd y ddau adolygydd yn gyfrifol am graffu ar y materion ychwanegol y bydd angen mynd i'r afael â hwy, a byddant yn gweithio ar y cyd â'r *Panel Adolygu.*

7.31 Wrth ddewis adolygydd, bydd yn bwysig cofio bod ansawdd a phrofiad yr adolygydd yn allweddol i ansawdd y canlyniad. Mae'r rôl yn gofyn am ystod eang o wybodaeth, sgiliau a gallu sy'n cynnwys gwybodaeth drylwyr am systemau, materion, cyfrifoldebau ac ymarfer ym maes amddiffyn oedolion, dealltwriaeth o waith amlasiantaethol, y gallu i holi a chyfathrebu ynghylch ymarfer gyda gweithwyr proffesiynol ac unigolion ac aelodau'r teulu, a sgiliau i hwyluso a rheoli prosesau grŵp yn effeithiol. Wrth benodi adolygydd, bydd angen i'r Bwrdd fod yn fodlon bod ymarferion recriwtio diogel wedi'u dilyn.

**Digwyddiad dysgu**

7.32 Fel yn achos adolygiad cryno, rhan allweddol o'r adolygiad estynedig fydd digwyddiad dysgu a gaiff ei drefnu a'i hwyluso gan y ddau adolygydd.

7.33 Mae'r digwyddiad dysgu yn rhan allweddol o'r adolygiad. Mae'n sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r adolygiad, bod ymarferwyr yn gallu clywed safbwyntiau'r teulu yn ystod y digwyddiad a'u bod, gydag ymarferwyr eraill sydd wedi

gweithio gyda'r unigolyn a'r teulu, yn gallu myfyrio ynghylch yr hyn a ddigwyddodd a nodi cyfleoedd i ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

7.34 Disgwylir i'r ymarferwyr a'r rheolwyr fod yn bresennol os bydd gofyn. Dylai'r *Panel Adolygu* feddwl yn greadigol ynghylch sut y gall ymarferwyr a rheolwyr llinell perthnasol ymgysylltu â'r adolygiad. Mewn rhai achosion, gallai fod yn briodol cynnal mwy nag un digwyddiad dysgu i sicrhau cyfraniad staff allweddol i'r broses ddysgu. Gallai myfyrio ynghylch y pwyntiau dysgu a'u cadarnhau fod yn rhan o'r digwyddiad dysgu, neu gellid cynnal sesiwn ar wahân gyda chyfranogwyr y digwyddiad dysgu yn ddiweddarach. Mae cyfrifoldeb ar y *Panel Adolygu i* helpu'r adolygydd I gynnal digwyddiad dysgu effeithiol. [16]

7.35 Fel rheol, bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn mynychu'r digwyddiad dysgu ar ran y Panel er mwyn sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i'r cwestiynau a'r materion a nodwyd ganddynt. Os bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn methu â mynychu, gall aelod addas arall o'r Panel fynychu.

7.36 Ar ddiwedd y digwyddiad dysgu, bydd yr adolygydd gyda'r ymarferwyr yn nodi materion a phwyntiau dysgu o ymarfer, sy'n berthnasol i un asiantaeth neu sy'n berthnasol ar sail ryngasiantaethol, er mwyn i'r *Panel Adolygu* eu hystyried a'u trafod ymhellach.

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion**

7.37 Yn dilyn y digwyddiad dysgu, bydd yr adolygwyr yn gyfrifol am gasglu a chyfuno'r hyn a ddysgwyd hyd yma i'w drafod â'r *Panel Adolygu* ar ffurf adroddiad drafft, gan ddefnyddio'r templed y cytunwyd arno ac a amlinellir yn Atodiad 1. Bydd yr arolygwyr yn gyfrifol am adrodd ynghylch y materion ychwanegol yr oedd angen craffu arnynt, a byddant hefyd yn gyfrifol am gadarnhau bod y broses ddysgu wedi'i chyflawni'n briodol.

7.38 Dylai'r adroddiad drafft fod yn gryno a dylai ganolbwyntio ar wella ymarfer. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, y gwaith dysgu o ymarfer a dysgu sefydliadol a nodwyd yn ystod yr adolygiad, gan dynnu sylw at ymarfer effeithiol, ac ystyriaethau ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol i wella ymarfer yn y dyfodol. Dylid nodi camau gweithredu a fydd yn arwain at welliannau o ran systemau ac ymarfer. Dylai'r camau gweithredu fod yn benodol, yn ymarferol ac yn fforddiadwy, a dylai fod ganddynt ganlyniadau disgwyliedig sydd wedi'u diffinio'n glir.

7.39 Mae'r cyfarfod rhwng yr adolygwyr a'r *Panel Adolygu* yn cyfuno cyfleoedd pwysig i sicrhau her broffesiynol â gwaith sicrhau ansawdd gan aelodau'r *Panel Adolygu*. Gellir ailarchwilio materion yn ymwneud ag ymarfer a nodwyd yn wreiddiol gan y *Panel Adolygu* yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygwyr a'r digwyddiad dysgu, ac mae'n bosibl y bydd materion wedi eu nodi y bydd angen eu hegluro ymhellach gydag ymarferwyr neu reolwyr neu'r *Panel Adolygu*.

7.40 Pan gytunir arnynt, caiff copi drafft dienw o 'r adroddiad a chynllun gweithredu amlinellol eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae templed (yn Atodiad 1) wedi'i ddarparu ar gyfer adroddiad yr adolygiad.

---

**16** Ar wefan Llywodraeth Cymru gellir gweld y canllawiau cyfatebol ar gyfer adolygiadau ymarfer plant, ynghyd â chanllaw ar gyfer trefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu

7.41 Efallai y daw'r adolygwyr a'r *Panel Adolygu* i'r casgliad nad yw'r ymarfer wedi methu neu wedi bod yn amhriodol yn yr achos hwn, ac efallai na wneir unrhyw argymhellion ynghylch newidiadau i bolisi neu ymarfer gweithredol yn lleol.

**Cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd**

7.42 Bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* a'r adolygwyr yn cyflwyno'r adroddiad drafft a'r cynllun gweithredu amlinellol i'r Bwrdd er mwyn iddo eu hystyried. Fel yn achos adolygiad cryno, mae cyflwyno'r adroddiad yn fodd i gysylltu aelodau'r Bwrdd ag ymarfer cyfredol a'r materion trefniadaethol sy'n deillio o'r gwaith dysgu o ymarfer. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn nodi materion dysgu neu gamau gweithredu sydd o bwys strategol i asiantaethau unigol neu a allai fod yn perthyn i gydgyfrifoldeb y Bwrdd, i'w cynnwys yn adroddiad terfynol yr adolygiad neu yn y cynllun gweithredu, fel y bo'n briodol.

7.43 Yna bydd y *Panel Adolygu* a'r adolygwyr yn cwblhau'r adroddiad terfynol i adlewyrchu'r ystod o waith dysgu a nodwyd. Cyfrifoldeb y Bwrdd yw derbyn yr adroddiad a darparu cyfeiriad o safbwynt y cynllun gweithredu arfaethedig.

7.44 Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyflwyno'r adroddiad i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru, a fydd yna'n cynnwys rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaethau fel y bo'n briodol er gwybodaeth. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael yr adroddiad ddim llai na phythefnos cyn dyddiad cyhoeddi arfaethedig y Bwrdd.

7.45 Caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos, ac wedi hynny bydd cyfeiriad ar y wefan i ddangos bod yr adroddiad ar gael o ofyn amdano.

7.46 Dylid cwblhau'r broses adolygu cyn gynted ag y bo modd ond fel arfer cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad cyfeirio'r achos at *Is-grŵp Adolygiadau'r* Bwrdd.

**Cynllun gweithredu**

7.47 Bydd y *Panel Adolygu* a'r adolygydd yn gyfrifol am baratoi cynllun gweithredu amlinellol i gyd-fynd â'r adroddiad drafft, i'w gyflwyno a'i drafod gan y Bwrdd. Dylai'r cynllun gweithredu adlewyrchu'r gwaith dysgu a nodwyd yn adroddiad yr adolygiad ymarfer oedolion, a dylai gynnwys ymarfer effeithiol lle bo'n briodol. Gellir cyfeirio'r camau gweithredu at asiantaethau unigol neu gellir nodi bod angen cymryd camau gweithredu amlasiantaethol. Dylai'r cynllun gweithredu ganolbwyntio ar ganlyniadau, a dylai ddangos mai bwriad y camau gweithredu yw gwneud gwahaniaeth i systemau lleol ac ymarfer amddiffyn oedolion.

7.48 Dylai cynllun gweithredu terfynol gael ei baratoi, sy'n adlewyrchu'r drafodaeth hon, cyn pen pedair wythnos ar ôl i'r Bwrdd ystyried yr adroddiad, a dylid anfon y cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bwrdd er mwyn i'r asiantaethau partner ei gymeradwyo. Dylai fod gan y cynllun gweithredu ffocws clir ar wella canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd.

7.49 Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr *Is-grŵp Adolygiadau*, ac adroddir yn eu cylch wrth y Bwrdd. Rhaid i'r broses hon gynnwys dosbarthu'r adroddiad a'r cynllun gweithredu yn eang i staff, fel y bo'n briodol. Bydd angen i is-grwpiau perthnasol y Bwrdd ystyried y pwyntiau dysgu hollbwysig a'r modd y cânt eu hymgorffori mewn unrhyw newidiadau i systemau ac ymarfer gweithredol,

hyfforddiant a goruchwyliaeth, ac wrth lunio blaenoriaethau ar gyfer gwaith a wneir gan y Bwrdd yn y dyfodol.


7.50 Dylai cynlluniau gweithredu arwain at welliannau mewn ymarfer diogelu, a bydd angen i'r Bwrdd sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu harchwilio'n ofalus i weld a ydynt wedi'u cyflawni a pha effaith a gawsant, ac a ydynt yn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd.

7.51 Gallai'r *Panel Adolygu* , yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu, ofyn i'r adolygydd gynnal digwyddiad gyda grwpiau o staff, naill ai er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd neu er mwyn olrhain yr effaith y mae'r newidiadau a wneir o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad yn ei chael ar ymarfer.

7.52 Bydd angen i'r *Is-grŵp Hyfforddiant* a'r *Is-grŵp Archwilio* gynnwys unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad cryno yn rhaglenni hyfforddiant a rhaglenni archwilio'r Bwrdd yn y dyfodol, neu bydd angen i'r materion hynny gael eu hymgorffori yn rhaglen waith y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol.

7.53 Ar ôl i'r camau gweithredu gael eu cwblhau, bydd angen I'r cynllun gweithredu gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru ynghylch y gwahaniaeth y mae'r camau gweithredu a gymerwyd wedi'i wneud i ymarfer.

## Ffigur 2 Siart lif o'r broses adolygiadau ymarfer oedolion



# 8 Defnyddio’r broses adolygiadau ymarfer oedolion yng nghyswllt camdriniaeth yn y gorffennol

8.1 Cyfrifoldeb y Bwrdd fydd penderfynu a yw achos yn bodloni’r meini prawf a bennwyd ar gyfer cynnal adolygiad ymarfer plant.  Gall Bwrdd benderfynu bod angen cynnal adolygiad ynghylch achos sy’n ymwneud â chamdriniaeth gyfundrefnol neu luosog yn y gorffennol neu'r presennol. Nod adolygiad o’r fath fyddai archwilio’r hyn y gellir ei ddysgu o ymarfer i sicrhau bod ymarfer a systemau trefniadaethol cyfredol yn cael eu cryfhau a’u gwella.

8.2 Gallai hyn gynnwys gosod ffordd o adnabod a gweithredu ar y gwersi i’w dysgu sy’n codi yn ystod yr ymchwiliad (megis mewn perthynas â pholisiau, gweithdrefnau ac arferion gweithio sydd o bosib wedi cyfrannu at y cam-drin) wrth I’r ymchwiliad fynd rhagddo, ac wrth gloi’r ymchwiliad, asesu’r ffordd y cafodd ei drin a phennu gwersi ar gyfer cynnal ymchwiliadau tebyg yn y dyfodol.

8.3 Dylai adolygiadau o gamdriniaeth yn y gorffennol sy’n bodloni’r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiad ymarfer oedolion ddilyn yr egwyddorion, y dull gweithredu a’r broses a amlinellir ym mhenodau 1 i 7 o’r canllawiau hyn.  Darperir canllawiau ymarfer yn Atodiad 3 ynghylch sut y gellir cynnal adolygiad o’r fath.

## Atodiad 1: Templedi ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion

### Templed 1
### Argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiadau i Gadeirydd y Bwrdd

**Oddi wrth:** Cadeirydd yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion – Enw a Swydd

**I:** Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion – Enw a Swydd

**Parthed:** Nodwch gyfeirnod yr achos (**i'w ddefnyddio ym mhob gohebiaeth yn y dyfodol** - *Mae'r cyfeirnodau hyn yn seiliedig ar y flwyddyn y dechreuodd yr Adolygiad Ymarfer Oedolion. Felly, er enghraifft, yr adolygiad ymarfer oedolion cyntaf a gynhelir gan CYSUR y flwyddyn nesaf fydd (CYSUR 1/ 2017)*)

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad bras o'r achos/digwyddiad**<br><br>Dylech gynnwys gwybodaeth am statws unigolyn/unigolion cyn y digwyddiad a dylech nodi unrhyw gamau diogelu a gymerwyd ar unwaith gan yr asiantaethau perthnasol er mwyn adfer y sefyllfa. | |
| | |
| **Argymhelliad**<br><br>Mae'r Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion wedi ystyried yr achos hwn ac mae'n argymell bod yr achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer: | |
| Adolygiad cryno | ☐ |
| Adolygiad estynedig | ☐ |
| Os na chaiff y meini prawf ar gyfer yr adolygiadau uchod eu bodloni, pa broses adolygu arall a gaiff ei chynnal: | |
| Cyfeiriwyd at fforwm proffesiynol amlasiantaethol | ☐ |
| Dim adolygiad | ☐ |
| Proses adolygu arall | ☐ |
| *Nodwch neu rhowch fanylion y broses adolygu arall, e.e. Adolygiad Dynladdiad Domestig*:<br><br>………………………………………………………………………………………………<br>……………………………………………………………………………………………… | |
| **Penderfyniad** | |
| Unfrydol | ☐ |
| Y mwyafrif | ☐ |

| |
|---|
| **Y resymeg dros y penderfyniad/argymhelliad**<br><br>Dylai hyn gynnwys y canlynol:-<br><br>• Y meini prawf yn y canllawiau.<br>• Yr ystod o adolygiadau a gafodd eu hystyried.<br>• Y mathau eraill o adolygiadau a ystyriwyd i ddiwallu anghenion yr achos.<br>• Y modd y caiff anghenion unrhyw adolygiad arall eu hymgorffori yn y cylch gorchwyl.<br>• Esboniad a chanlyniad - os oedd yn benderfyniad y mwyafrif**.** |
| |

## Amlinelliad Cychwynnol Arfaethedig o'r Adolygiad

(Mae hwn yn amlinelliad cychwynnol y bydd angen ei ddiweddaru wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.)

**Y cyfnod y bydd yr adolygiad yn ymdrin ag ef yn unol â'r canllawiau.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0-6 mis | | 6-12 mis | |

**Y rhesymeg dros ddewis y cyfnod hwn.**

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Dros 12 mis** | ☐ |

| |
|---|
| Os byddwch yn dewis dros 12 mis, nodwch eich rhesymeg dros wneud hynny (gan fod y cyfnod hwnnw'n hwy na'r amser a argymhellir yn y canllawiau) |
| |

## Yr asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos a gaiff ei adolygu

(Dylech gynnwys enw a swydd os ydynt yn hysbys)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwr Gofal | ☐ | | Yr Heddlu | ☐ | |
| Tai | ☐ | | Gwasanaeth Prawf | ☐ | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | ☐ | | Iechyd Cyhoeddus Cymru | ☐ | |
| Ymddiriedolaeth GIG | ☐ | | Gwasanaethau Cymdeithasol | ☐ | |
| Bwrdd Diogelu Arall | ☐ | | Trydydd Sector | ☐ | |
| Arall (nodwch a yw'r asiantaeth yn hysbys ai peidio): | | | ☐ | | |

## Yr asiantaeth a benodwyd i Gadeirio'r Panel Adolygu

(Dylech gynnwys enw a swydd os ydynt yn hysbys)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwr Gofal | ☐ | | Yr Heddlu | ☐ | |
| Tai | ☐ | | Gwasanaeth Prawf | ☐ | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | ☐ | | Iechyd Cyhoeddus Cymru | ☐ | |
| Ymddiriedolaeth y GIG | ☐ | | Gwasanaethau Cymdeithasol | ☐ | |
| Bwrdd Diogelu Arall | ☐ | | Trydydd Sector | ☐ | |
| Arall (nodwch a yw'r asiantaeth yn hysbys ai peidio): | | | ☐ | | |

| A yw'r Cadeirydd yn annibynnol am nad yw wedi ymwneud â'r achos neu wedi goruchwylio'r achos o gwbl? | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| ***Rhesymeg dros eich dewis o Gadeirydd**:* | | | | |
| | | | | |

| **Bydd y materion craidd yr eir i'r afael â hwy yng nghylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys y canlynol:**<br><br>• Archwilio'r dull rhyngasiantaethol o weithio a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau ar gyfer unigolyn X trwy gylch gorchwyl a ddiffiniwyd.<br><br>• Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan yr unigolyn/unigolion ac aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar y cynnydd a wneir.<br><br>• Nodi'r materion penodol y mae angen cael eglurhad pellach yn eu cylch. (*Rhestrwch y materion sy'n berthnasol i'r achos dan sylw yma*.)<br><br>• Llunio adroddiad i'w gyhoeddi a chynllun gweithredu. |
|---|
| **Swyddogaethau a chyfrifoldebau dangosol**<br>• Bydd Cydlynydd y Bwrdd yn gyfrifol am gadw mewn cysylltiad â phob asiantaeth a theulu perthnasol a phawb arall y mae a wnelont â'r adolygiad<br><br>• Bydd Cadeirydd y Panel yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd ac Is-grŵp y Bwrdd ynghylch unrhyw newidiadau pwysig i gwmpas yr adolygiad ac fe fydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny<br><br>• Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am bob sylw cyhoeddus ac am bob ymateb i unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau sy'n ymwneud â'r adolygiad, nes i'r broses gael ei chwblhau. Rhagwelir na chaiff gwybodaeth ei datgelu i'r cyhoedd heblaw am Adroddiad Terfynol y Bwrdd.<br><br>• Bydd y Bwrdd a'r Panel yn gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â'r adolygiad. Yn benodol, bydd hynny'n cynnwys cyngor ynghylch:<br>  • y cylch gorchwyl;<br>  • datgelu gwybodaeth;<br>  • canllawiau i'r *Panel Adolygu* ar faterion sy'n ymwneud â chyfweld aelodau unigol o staff. |

## Penodi Adolygydd sy'n Annibynnol ar Reolwyr yr Achos

| A yw'n fwriad penodi adolygydd annibynnol? | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| **A yw enw a swydd yr adolygydd annibynnol yn hysbys?** | Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ |

| |
|---|
| *Os **Ydy/Ydynt** oedd eich ateb, nodwch swydd yr adolygydd annibynnol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol):* |

## Adolygiad sy'n Annibynnol ar Reolwyr yr Achos – Adolygiad Estynedig

Yn achos adolygiad estynedig, eir i'r afael â'r cwestiynau craidd canlynol yn unol â chanllawiau'r adolygwyr yng nghylch gorchwyl yr adolygiad.

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'u hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt yr oedolyn sy'n wynebu risg, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn sy'n wynebu risg.
- A oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg yn ddigon cadarn, ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn a'i amgylchiadau.
- A gafodd y cynllun ei weithredu'n effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a gweithredu'r cynllun amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y cynllun a weithiodd ac na weithiodd yn dda a pham. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn sy'n wynebu risg. A alwyd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol i rym.
- A gafodd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hynny gynnwys ystyriaeth i faterion trefniadaethol a materion cyd-destunol eraill).

Mae'n bosibl y bydd y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygwyr hefyd yn nodi materion perthnasol pellach yng nghyswllt amgylchiadau'r achos (gweler paragraff.

*A oes unrhyw gwestiynau penodol ychwanegol y mae'n briodol eu codi ar hyn o bryd?*

| | |
|---|---|
| **Cost adolygydd annibynnol yn fras (os yw'n hysbys), a sut y caiff y gost ei thalu** | £ ……………………. |
| | |
| **Costau ychwanegol a nodwyd (os ydynt yn hysbys).** Nodwch fanylion: | £ ……………………. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu** | …………………………………………… |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd yr adroddiad wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen a nodir yn y Canllawiau?** *h.y. cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad cyfeirio'r achos* | Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ |
| **Nodwch unrhyw broblemau a allai effeithio ar yr amserlen a nodwch sut y caiff y problemau hynny eu rheoli:-** *Dylech gynnwys materion megis:- Erlyniad troseddol Penderfyniad y Crwner* | | | | |
| | | | | |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad y disgwylir i'r adroddiad gael ei gwblhau** | ………………………………………….. |

I'w gwblhau gan Gadeirydd Is-grŵp yr Adolygiad Ymarfer

Llofnod…………………………………………..

Teitl…………………………………………..

Dyddiad………………………………………….

Rhif ffôn………………………………………….

## Penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

| | |
|---|---|
| **Rwy'n cytuno** â'r argymhelliad<br>**Rwy'n cytuno** â'r argymhelliad **os gwneir y newidiadau canlynol:-** | ☐<br>☐ |
| **Rwy'n anghytuno** â'r argymhelliad<br>*Os ydych yn anghytuno, nodwch y rhesymau pam a nodwch pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cynnig* | ☐ |

Llofnod…………………………………………..

Teitl…………………………………………..

Dyddiad………………………………………….

Rhif ffôn………………………………………….

## Wrth drafod â Chadeirydd yr Is-grŵp

Y dyddiad y caiff yr wybodaeth ei chyflwyno i'r Bwrdd ………………………

Y dyddiad y cafodd yr wybodaeth ei hanfon i Lywodraeth Cymru ...........................

## At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Y dyddiad y daeth yr wybodaeth i law ………………….……………….…….……….

Y dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd ………………………….………

Y dyddiad y dosbarthwyd yr wybodaeth i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol ..................................................

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |

# Templed 2. Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion**

**Bwrdd Diogelu Oedolion** (nodwch yr enw)
**Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno/Estynedig** (dileer fel y bo'n briodol)
**Parthed** *nodwch gyfeirnod yr achos*[17]
**xx Bwrdd 1/17**

## Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

*Yr hyn y dylid ei gynnwys yma: -*

- *Y cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnalmewn perthynas â hwy*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod a adolygir a'r rheswm pam*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad … gan Fwrdd … yn dilyn argymhelliad a wnaed gan yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Caiff y meini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad hwn eu bodloni dan x:

(adroddiad dienw cryno ynghylch yr amgylchiadau a olygodd fod angen i'r Bwrdd gynnal adolygiad)

## Dysgu o ymarfer a dysgu sefydliadol

*Dylech nodi pob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan dynnu sylw at ymarfer effeithiol) a dylech roi amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol*

(Gallai'r amgylchiadau perthnasol sy'n ategu pob pwynt dysgu fod yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o gyswllt y teulu â gwahanol wasanaethau, safbwynt ymarferwyr a'u hasesiadau a'r camau gweithredu a gymerwyd, safbwyntiau aelodau'r teulu, tystiolaeth am ymarfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau).

**17** Mae'r cyfeirnodau hyn yn seiliedig ar y flwyddyn y dechreuodd yr Adolygiad Ymarfer Oedolion. Felly, er enghraifft, yr adolygiad ymarfer oedolion cyntaf a gynhelir gan CYSUR y flwyddyn nesaf fydd (CYSUR 1/ 2017)

| Gwella systemau ac ymarfer<br>*Er mwyn hybu'r hyn a gaiff ei ddysgu o'r achos dan sylw, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono, a'r canlyniadau disgwyliedig canlynol o safbwynt gwella:-* |
|---|
| (Beth y bydd angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y bydd hynny'n gwella ymarfer a systemau yn y dyfodol, er mwyn hybu ymarfer) |

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr adolygydd/adolygwyr</th></tr>
<tr><td>ADOLYGYDD 1</td><td></td><td>ADOLYGYDD 2 (os yw'n briodol)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos<br>Sicrhau Ansawdd - Datganiad ynghylch cymhwysedd</td><td colspan="2">Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos<br>Sicrhau Ansawdd - Datganiad ynghylch cymhwysedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-<br>• Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl.</td><td colspan="2">Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-<br>• Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl.</td></tr>
<tr><td>Adolygydd 1<br>(Llofnod)<br><br>Enw<br>(mewn llythrennau bras)<br><br>Dyddiad</td><td>………………….<br><br>………………….<br><br>………………….</td><td>Adolygydd 2<br>(Llofnod)<br><br>Enw<br>(mewn llythrennau bras)<br><br>Dyddiad</td><td>……………………<br><br>……………………<br><br>……………………</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ***Cadeirydd y Panel Adolygu*** *(Llofnod)* | ...................... |
| **Enw** *(mewn llythrennau bras)* | ...................... |
| **Dyddiad** | ...................... |

**Atodiad 1**: Cylch gorchwyl
**Atodiad 2** : Llinell amser gryno

| **Proses Adolygiad Ymarfer Oedolion** |
|---|
| *Yr hyn y dylid ei gynnwys yma'n gryno:*<br>• *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*<br>• *Bod digwyddiad dysgu wedi'i gynnal, gan nodi'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*<br>• *Bod aelodau'r teulu wedi cael eu hysbysu, y gofynnwyd am eu barn, y cawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu ac y darparwyd adborth iddynt.* |
| |
| ☐ Gwrthododd y teulu gymryd rhan |

**Ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig**

Y dyddiad y daeth yr wybodaeth i law ....................................................................

Y dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd…………………………

Y dyddiad y dosbarthwyd yr wybodaeth i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol..................................................

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |

## Templed 3. Llinell amser gryno **Bwrdd Diogelu Oedolion (rhowch yr enw)**

**Llinell amser gryno**

**Parthed:** ***nodwch gyfeirnod yr achos***

| **Math o weithgarwch** | 2016 | | | | | | | **2017** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin** | **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** | **Hydref** | **Tach** | **Rhagfyr** | **Ion** | **Chwe** | **Maw** | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Gorff** | **Awst** | **Medi** | **Hydref** | **Tach** |
| **Gwasanaethau ysbyty** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymorth**[1] | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Yr Heddlu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfiawnder Troseddol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Meddyg teulu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Tai** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Addysg** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Materion cyd-destunol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

***1** Gofal preswyl ac ati*

*Lluniwyd llinellau amser manwl gan y gwasanaethau perthnasol at ddibenion yr adolygiad er mwyn hybu dealltwriaeth o'r rhyngweithio cymhleth rhwng digwyddiadau a gwasanaethau yn yr achos hwn. Mae'r llinell amser gryno a rhannol hon yn cynnwys manylion cyfyngedig a dienw, ac fe'i darperir er mwyn ategu'r amlinelliad o amgylchiadau yn adroddiad yr adolygiad ymarfer oedolion.*

# Atodiad 2: Cylch gorchwyl ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig - enghraifft

**Cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion cryno/estynedig** (dileer fel y bo'n briodol)

**Tasgau craidd**

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i'r unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu weithrediadau cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

## Ar gyfer adolygiadau estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol yn benodol:

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'u hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt yr oedolyn sy'n wynebu risg, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn sy'n wynebu risg.
- A oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg yn ddigon cadarn, ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn a'i amgylchiadau.
- A gafodd y cynllun ei weithredu'n effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a gweithredu'r cynllun amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y cynllun a weithiodd ac na weithiodd yn dda a pham. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn sy'n wynebu risg. A alwyd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol i rym.
- A gafodd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hynny gynnwys ystyriaeth i faterion trefniadaethol a materion cyd-destunol eraill).

**Tasgau penodol y Panel Adolygu**

- Dewis a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd eisoes yn syth.
- Llunio llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a rhagdybiaethau.
- Gweithio gyda'r adolygydd/adolygwyr i gynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr, a ddylai gynnwys camau i nodi'r sawl a ddylai fynychu, y trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth.
- Gweithio gyda'r adolygydd/adolygwyr i gynllunio trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer oedolion er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod sylw wedi'i roi i'r rhagdybiaethau cychwynnol a bod unrhyw waith dysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a'r cynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn iddo eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn cyhoeddi'r adroddiad.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion**

- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o ran y Bwrdd sydd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu, a chytuno arnynt.
- Y *Panel Adolygu* yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd yn anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau er mwyn i'r Is-grŵp Adolygiadau reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y caiff y gwelliannau a ddisgwylir i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno i ddosbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am bob sylw cyhoeddus ac am bob ymateb i unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau sy'n ymwneud â'r adolygiad, nes i'r broses gael ei chwblhau.

# Atodiad 3: Cynnal adolygiad mewn achos o gamdriniaeth gyfundrefnol neu luosog yn y gorffennol

1. Nod cynnal adolygiad ar ôl ymchwiliad i achos o gamdriniaeth gyfundrefnol neu luosog yn y gorffennol, sy'n bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer cynnal adolygiad ymarfer oedolion, yw nodi'r materion sydd wedi codi o ymarfer yn y gorffennol a sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd wedi llywio ymarfer cyfredol, sy'n golygu bod systemau gwell ar waith. Diben cynnal adolygiad yw hybu gwella a dysgu a pheidio â bwrw bai. Bydd unrhyw faterion ynghylch cymhwysedd neu ddisgyblu y tu allan i gylch gwaith adolygiad, ac maent yn faterion y dylai gweithdrefnau disgyblu asiantaethau unigol ymdrin â hwy.

2. Dylid rhannu'r hyn a ddysgir â'r asiantaethau a'r staff hynny sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am gamau gweithredu sy'n ymwneud â diogelu oedolion. Dylai'r Bwrdd ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad i sicrhau ansawdd a chadernid systemau ac ymarfer cyfredol asiantaethau wrth iddynt ymateb i unrhyw bryderon, amheuon neu honiadau ynghylch oedolion mewn sefydliadau preswyl neu fathau eraill o ofal grŵp.

**Y broses adolygu**

3. Dylai'r adolygiad archwilio'r modd yr ymatebodd asiantaethau amddiffyn oedolion i achosion o ddatgelu camdriniaeth, a dylai nodi pwyntiau dysgu o'r prosesau a ddilynwyd, y penderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu a gymerwyd wrth ymateb i honiadau. Bydd angen i'r broses adolygu fod yn hyblyg ac yn heriol er mwyn darganfod materion perthnasol ac ystyried newidiadau i staff a gweithdrefnau, a allai fod wedi digwydd yn y cyfamser. Gellir gwneud hynny drwy ddefnyddio ystod o ddulliau sy'n cynnwys archwilio cofnodion cyfarfodydd a dogfennau eraill a chynnal cyfweliadau unigol â'r staff ac aelodau'r teulu (fel y bo'n briodol) er mwyn egluro gwybodaeth. Dylai'r adolygiad gynnwys digwyddiad dysgu a gynhelir gyda rheolwyr ac ymarferwyr perthnasol.

4. Dylai'r adolygiad d dilyn yr egwyddorion, y dull gweithredu a'r broses a amlinellir ym mhennod 6. Mae'r siart lif (Ffigur 2 ar dudalen 27) yn y canllawiau hyn yn amlinellu'r broses y dylid ei dilyn.

**Tasgau craidd yr adolygiad**

5. Mae'r tasgau craidd fel a ganlyn:

- Sicrhau bod polisi, gweithdrefnau ac ymarfer cyfredol y gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd wedi cael eu llywio gan y materion a'r gwaith dysgu a ddeilliodd o'r achos, trwy archwilio'r canlynol:
    - prosesau gwneud penderfyniadau ar draws asiantaethau a thrwy'r awdurdod cyfan fel y maent yn berthnasol i'r achos hwn.
    - i ba raddau yr oedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

- gwaith rhyngasiantaethol a’r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i’r unigolion dan sylw a’u teuluoedd.

- Ceisio cyfraniadau i’r adolygiad, fel y bo’n briodol ac os ydynt ar gael, gan yr unigolion ac aelodau’r teulu a darparu adborth iddynt.
- Ystyried yr hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau neu weithrediadau cyfochrog a oedd yn ymwneud â’r achos adeg y digwyddiadau ac ar ôl hynny.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol er mwyn nodi ymhle y mae ymarfer eisoes wedi newid neu ymhle y dylai fod yn wahanol yn y dyfodol.
- Paratoi adroddiad ynghylch yr adolygiad gan ddefnyddio’r templed yn Atodiad 2 y canllawiau hyn.

**Tasgau penodol**

6. Dylai’r adolygiad gael ei reoli gan *Banel Adolygu* amlasiantaethol a sefydlwyd gan *Is-grŵp Adolygiadau* y Bwrdd. Gallai’r asiantaethau a gaiff eu cynrychioli ar y *Panel Adolygu* fod yn perthyn i feysydd sy’n ymwneud ag addysg, yr heddlu, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, ynghyd â Chydlynydd y Bwrdd. Gellid cynnwys staff profiadol o’r tu allan i’r asiantaeth i ddarparu arbenigedd a her ychwanegol. Dylai fod gan aelodau’r *Panel Adolygu* wybodaeth ddigonol am y gwasanaethau, ond ni ddylent fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r achos.

7. Dylai cyfrifoldebau aelodau’r *Panel Adolygu* yn ystod yr adolygiad fod fel a ganlyn:

   - gweithredu fel dolen gyswllt â’u hasiantaethau perthnasol er mwyn hwyluso gwaith yr adolygwyr a sicrhau bod eu hasiantaethau’n cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy’n codi o’r adolygiad yn unol â threfniadau’r asiantaeth ar gyfer adrodd yn ôl.
   - cadarnhau neu ddiwygio’r cylch gorchwyl fel sy’n ofynnol, gan gynnwys y cyfnod y dylid ei adolygu.
   - comisiynu llinellau amser yr asiantaeth a dadansoddiadau o’r rhan a chwaraeodd.
   - cyflwyno llinell amser eu hasiantaeth a dadansoddiad cychwynnol i’r *Panel Adolygu.*
   - cynnig her ac arbenigedd proffesiynol i’r ymarfer a nodwyd yn y llinell amser gyfun ac yn nadansoddiadau’r asiantaethau.
   - nodi’r materion y mae angen eu harchwilio mewn digwyddiad dysgu.
   - ar ôl cynnal y digwyddiad dysgu, dylai’r *Panel Adolygu* ystyried y materion dysgu a nodwyd pan fydd yr adroddiad wedi ei ddrafftio gan yr adolygwyr.
   - cyfrannu at ddatblygu adroddiad a chynllun gweithredu fel sy’n ofynnol.

8. Dylai’r *Panel Adolygu* gytuno ar linell amser ar gyfer archwilio cofnodion a deunydd arall. Dylai’r *Panel Adolygu* gomisiynu asiantaethau i ddarparu llinellau amser ar gyfer y rhan a chwaraewyd ganddynt yn yr achos, a dylai eu comisiynu i ddarparu dadansoddiad cryno o gamau gweithredu ac ymarfer o’u safbwynt nhw.

*9.* Dylai’r *Panel Adolygu* benodi adolygydd (neu adolygwyr) sy’n annibynnol ar y

Bwrdd, yn unol â'r canllawiau ar gyfer cynnal adolygiadau ymarfer oedolion cryno ac estynedig. Bydd disgwyl i'r adolygydd gydweithio'n agos â'r *Panel Adolygu* a chael cynnig cymorth ymarferol gan Gydlynydd y Bwrdd neu aelod a enwebwyd o'r *Panel Adolygu.*

10. Dylai'r adolygydd/adolygwyr archwilio llinellau amser a dadansoddiadau asiantaethau unigol a chael mynediad i dystiolaeth ddogfennol berthnasol a nodwyd gan yr asiantaethau dan sylw, yn enwedig unrhyw ddogfennau amlasiantaethol. Yn ôl yr angen, dylai'r adolygydd gyfweld cynrychiolydd yr asiantaeth a fu'n paratoi'r llinell amser er mwyn egluro gwybodaeth a manteisio ar y canllawiau a'r adroddiadau sydd ar gael.

11. Pan fydd hynny wedi'i gwblhau, dylai'r adolygydd/adolygwyr gyda'r *Panel Adolygu* lunio syniadau a rhagdybiaethau, a gaiff eu rhoi ar brawf mewn digwyddiad dysgu, ar sail y prif faterion sydd wedi ymddangos trwy ddadansoddi'r llinell amser gyfun a'r adroddiadau cryno.

12. Yna, dylai'r adolygydd/adolygwyr gyda'r *Panel Adolygu* gynllunio digwyddiad dysgu a fydd yn dod â staff perthnasol allweddol ynghyd o wahanol asiantaethau a fyddai'n ymwneud yn awr â thrin a rheoli ymateb amlasiantaethol i bryderon o'r fath ac unrhyw benderfyniadau a chamau gweithredu dilynol y byddai'n rhaid eu gwneud a'u cymryd. Dylid nodi a pharatoi'r sawl a fydd yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu. Mae'n debygol y bydd angen cymryd gofal arbennig wrth gynllunio'r digwyddiad os bydd yn cynnwys staff a allai fod wedi bod mewn swyddi perthnasol pan ddigwyddodd y materion sy'n destun yr adolygiad, yn ogystal â staff sydd wedi'u penodi ers hynny. Dylai'r digwyddiad ganolbwyntio ar ddysgu ac nid ar fwrw bai am yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, a dylai ymwneud â nodi achosion lle mae ymarfer eisoes wedi newid neu lle dylai ymarfer fod yn wahanol yn y dyfodol. Erei bod yn debygol y bydd yr adolygiad yn ymwneud â'r prosesau y dylid eu dilyn, bydd angen i'r adolygydd/adolygwyr sicrhau y canolbwyntir ar yr unigolyn trwy'r amser.

13. Dylai'r adolygydd/adolygwyr gyda'r *Panel Adolygu* ystyried a rheoli sut y gellir cynnwys safbwyntiau'r unigolyn neu aelodau'r teulu a sut y gallant gyfrannu i'r digwyddiad dysgu.

14. Dylai'r materion o ran dysgu a'r casgliadau sy'n deillio o'r digwyddiad lywio trafodaeth â'r Panel Adolygu, a dylai adroddiad drafft gael ei baratoi gan yr adolygydd/adolygwyr i'w ystyried a'i drafod gyda'r *Panel Adolygu*. Dylai'r adroddiad ynghyd â chynllun gweithredu amlinellol gael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Dylid dilyn fformat y templed wrth baratoi adroddiad (Atodiad 1).

### Tasgau'r Bwrdd

15. Dylai copi drafft o adroddiad gael ei gyflwyno gan Gadeirydd y *Panel Adolygu* a'r adolygydd/adolygwyr i'r Bwrdd er mwyn i'r aelodau ystyried a chymeradwyo'r adroddiad. Rôl y Bwrdd yw darparu her broffesiynol ac ystyried goblygiadau strategol y canfyddiadau a chamau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono.

16. Ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, dylai gael ei anfon at yr asiantaethau dan sylw er mwyn iddynt ei gymeradwyo. Yna, bydd Cadeirydd y Bwrdd yn anfon yr adroddiad i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru er gwybodaeth. Dylai'r canlyniadau dysgu gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd, fel y nodir ym

mharagraffau 6.49 a 7.45.

17. Dylai'r Bwrdd ystyried y cynllun gweithredu amlinellol a baratowyd gan y *Panel Adolygu* a'r adolygydd/adolygwyr.  Dylai'r cynllun gweithredu nodi'r gwahaniaeth y bwriedir i unrhyw gamau gweithredu ei wneud i ymarfer, a'r modd y bydd y Bwrdd yn archwilio hynny yn y dyfodol.  Dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r cynllun gweithredu terfynol cyn pen pedair wythnos ar ôl cwblhau'r adroddiad a'i anfon i Lywodraeth Cymru.